Cydweithfa AI Cymru
Welsh AI Collective

ADRODDIAD CYCHWYNNOL · HYDREF 2026

Yn Barod am AI

Adroddiad cychwynnol ar gymorth cyhoeddus i fusnesau bach yng Nghymru fabwysiadu AI

Felix Clarke FRSA MBA · Cydweithfa AI Cymru



TUA

2c ym mhob £1

O'r arian cyhoeddus a ddyfarnwyd ar gyfer gwaith AI yng Nghymru ers Ebrill 2022, tua 2c ym mhob £1 sydd wedi mynd i helpu busnesau i fabwysiadu AI.

Cydweithfa AI Cymru
Welsh AI Collective

Yn Barod am AI

Adroddiad cychwynnol ar gymorth cyhoeddus i fusnesau bach yng Nghymru fabwysiadu AI

AM FELIX CLARKE

Mae Felix Clarke FRSA MBA yn gynghorydd strategol i berchnogion busnesau sefydledig ac yn aelod o Gydweithfa AI Cymru. Yn ystod gyrfa hir ym myd busnes, mae wedi helpu perchnogion ym meysydd strategaeth, marchnata a thwf, ac yn y blynyddoedd diwethaf mae ei waith wedi troi at yr hyn y mae deallusrwydd artiffisial yn ei olygu i'r ffordd y caiff cwmnïau bach a chanolig eu rhedeg. Drwy ei waith gyda chwmnïau bach, mae wedi gweld drosto'i hun sut y maent yn mabwysiadu technoleg newydd, ble y maent yn petruso, a pha fath o help sy'n gwneud y gwahaniaeth.

Mae Felix wedi byw yng Nghymru am y rhan fwyaf o'i fywyd fel oedolyn. Dros y blynyddoedd, cafodd ei gwmnïau a'i syniadau busnes fudd o fentrau Llywodraeth Cymru a oedd yn cefnogi perchnogion busnesau, ac mae'n dal yn ddiolchgar am yr help hwnnw. Yr adroddiad hwn yw ei ffordd o roi rhywbeth yn ôl, drwy gefnogi'r genhedlaeth nesaf o berchnogion busnesau yng Nghymru wrth iddynt fabwysiadu AI.

Mae'n Gymrawd y Royal Society of Arts ac mae ganddo radd MBA.

AM YR ADRODDIAD HWN


Adroddiad cychwynnol yw hwn. Mae'n dwyn ynghyd y dystiolaeth gyhoeddedig ar y ffordd y mae Cymru'n helpu ei busnesau bach i fabwysiadu AI, fel bod modd trafod a phrofi'r canfyddiadau ac adeiladu arnynt. Nid yw'n cyflwyno rhaglen. Mae'r costau a ddangosir yn Adran 7 yn enghreifftiau o raddfa, nid yn gynigion.

AWDUR YR ADRODDIAD: FELIX CLARKE FRSA MBA, CYDWEITHFA AI CYMRU
CYHOEDDWYD GAN GYDWEITHFA AI CYMRU, HYDREF 2026

AM GYDWEITHFA AI CYMRU

Mae Cydweithfa AI Cymru yn grŵp o fusnesau bach yng Nghymru sy'n cydweithio er mwyn sicrhau mynediad teg at adnoddau'r llywodraeth ar gyfer mabwysiadu AI, ac er mwyn hyrwyddo'r gwaith o gyflwyno addysg, cymorth a grantiau sy'n helpu busnesau bach Cymru i ddefnyddio AI. Mae Felix Clarke yn aelod o'r Gydweithfa.

Cynnwys



	Ffeithiau allweddol	4
	Cyflwyniad	5
	Canfyddiadau	6
	Materion i'w hystyried	8
1	ADRAN 1 Mae gan Gymru gynllun AI ac mae wedi dechrau ei gyflawni, ond nid oes gan y cynllun ei gyllideb ei hun	9
2	ADRAN 2 Mae busnesau bach yn ffurfio'r rhan fwyaf o economi Cymru, ond ychydig o'r arian cyhoeddus ar gyfer AI sydd wedi mynd at eu helpu i'w fabwysiadu	13
3	ADRAN 3 Mae cymdogion Cymru yn gwario mwy y pen, ac mae Cymru'n ennill llai na'i chyfran o gyllid y DU	18
4	ADRAN 4 Mae rhaglenni cynharach Cymru yn cynnig gwersi am yr hyn sy'n gweithio	21
5	ADRAN 5 Nid yw risgiau AI wedi'u rhannu'n gyfartal ar draws Cymru	23
6	ADRAN 6 Os bydd Cymru'n dal i fyny â'r DU erbyn 2030, gallai ennill tua £1.1bn o allbwn ychwanegol dros ddeng mlynedd	25
7	ADRAN 7 Materion i'w hystyried a'r camau nesaf	28
	Casgliad	32
	Cyfeiriadau	33
A	ATODIAD A Sut y gwnaed yr ymchwil a'r amcangyfrif	39

Ffeithiau allweddol



Dim

Nid oes gan y Cynllun AI i Gymru ei gyllideb ei hun eto, ac nid adroddwyd eto bod unrhyw ran o becyn £2.1m Llywodraeth Cymru i helpu busnesau bach i fabwysiadu AI wedi'i gwario.

2c

O bob £1 o arian cyhoeddus a ddyfarnwyd ar gyfer gwaith AI yng Nghymru ers mis Ebrill 2022, mae tua 2c wedi mynd at helpu busnesau i fabwysiadu AI.

99.3%

Busnesau bach a chanolig yw 99.3% o fusnesau Cymru, ac maent yn cyflogi 62.3% o'r bobl sy'n gweithio mewn busnesau yng Nghymru.

24.8% o'i gymharu â 34.9%

Yn 2024, ymhlith cwmnïau yng Nghymru â deg neu fwy o weithwyr a oedd yn defnyddio technolegau cynhyrchu digidol, roedd 24.8% yn defnyddio AI, y gyfran isaf o bedair gwlad y DU, o'i gymharu â 34.9% yn Lloegr.

Tua phedair gwaith

Mae Gogledd Iwerddon yn gwario tua phedair gwaith cymaint y pen ar gymorth ymarferol i fusnesau fabwysiadu AI ag y mae Cymru wedi'i ymrwymo.

6c

Am bob £1 o arian cyhoeddus a wariodd Cymru ar adeiladu band eang cyflym iawn, gwariodd tua 6c ar helpu busnesau i'w ddefnyddio.

£1.1bn

Gallai Cymru ennill tua £1.1bn o allbwn ychwanegol dros y deng mlynedd hyd at 2035 os bydd ei chyfradd mabwysiadu AI yn dal i fyny â chyfradd y DU erbyn 2030.

£4.5m y flwyddyn

Byddai cyfateb i gyfradd gwariant y pen yng Ngogledd Iwerddon yn costio tua £4.5m y flwyddyn i Gymru, sef tua 20% o gyllideb graidd Busnes Cymru.

Cyflwyniad



1 Adroddiad cychwynnol yw hwn ar y ffordd y mae Cymru'n helpu ei busnesau bach i fabwysiadu deallusrwydd artiffisial (AI). Mae'n dwyn ynghyd yr hyn a gyhoeddwyd am y Cynllun AI i Gymru a'r arian cyhoeddus a ymrwymwyd i AI. Mae hefyd yn edrych ar ble mae'r arian hwnnw wedi mynd, sut mae Cymru'n cymharu â'i chymdogion a pha wersi a ddysgwyd o raglenni cynharach. Fe'i cynigir fel adroddiad cyntaf ar y dystiolaeth, er mwyn llywio trafodaeth a gwaith pellach.

2 Mae Cymru'n dechrau o sefyllfa dda. Mae ganddi gynllun AI, Swyddfa AI a dwy Ardal Twf AI.[1, 2, 3] Mae Busnes Cymru yn cynnal digwyddiadau AI am ddim i fusnesau, a gyflwynir ledled Cymru gan M-SParc, parc gwyddoniaeth Prifysgol Bangor ar Ynys Môn, ac mae cymhorthdal hyfforddiant yn talu tri chwarter cost cyrsiau AI.[4, 5] Mae cwmnïau bach yng Nghymru wedi ennill miliynau o bunnoedd gan Innovate UK i ddatblygu eu cynhyrchion AI eu hunain.[6]

3 Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bylchau. Nid oes gan y Cynllun AI gyllideb, targedau nac amserlen eto.[1] Nid adroddwyd eto bod unrhyw ran o becyn £2.1m Llywodraeth Cymru i helpu busnesau bach i fabwysiadu AI wedi'i gwario.[5] Ers mis Ebrill 2022, mae tua **2c** ym mhob £1 o arian cyhoeddus a ddyfarnwyd ar gyfer gwaith AI yng Nghymru wedi mynd at helpu busnesau i'w fabwysiadu.[7]

4 Mae'r amseru'n berthnasol. Daeth llywodraeth newydd i rym ym mis Mai 2026, ac mae ei gweinidog sy'n gyfrifol am AI wedi addo dull cenedlaethol mwy cydgysylltiedig.[8, 9] Mae disgwyl i'w chyllideb ddrafft gyntaf, ar gyfer 2027-28, gael ei chyhoeddi ar 17 Tachwedd 2026, pan fydd y cynlluniau amlinellol a'r cynlluniau manwl yn cael eu cyhoeddi gyda'i gilydd, ac mae disgwyl y Gyllideb Derfynol ar 16 Chwefror 2027.[10, 11, 12] Gallai'r canfyddiadau fod o ddefnydd i'r rheini sy'n paratoi'r gyllideb honno a'r rhai a ddaw ar ei hôl, ac sy'n craffu arnynt. Mae Pwyllgor yr Economi, Ynni a Chysylltedd y Senedd eisoes wedi gofyn i'r Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni nodi, ochr yn ochr â'r gyllideb ddrafft, y dyraniadau i Fusnes Cymru, sut mae cymorth y llywodraeth i fusnesau yn helpu busnesau bach a chanolig, a'r cymorth i dyfu sectorau technoleg allweddol fel AI.[13]

5 Mae'r astudiaeth yn seiliedig ar adolygiad o ddogfennau polisi, tablau cyllideb, trafodion y Senedd, cofnodion grantiau a chontractau, a gwerthusiadau o raglenni cynharach. Casglwyd ynghyd yr arian cyhoeddus ar gyfer AI yng Nghymru rhwng mis Ebrill 2022 a chanol mis Hydref 2026 o grantiau, contractau a thaliadau a gyhoeddwyd, a lluniwyd model economaidd o'r hyn y gallai mabwysiadu AI ei ychwanegu at allbwn Cymru. Cafodd pob ffigur ei wirio yn erbyn ei ffynhonnell wreiddiol, ac mae Atodiad A yn disgrifio'r dull.

6 Mae cyfyngiadau ar y dystiolaeth. Ni anfonwyd unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac ni chynhaliwyd arolwg o fusnesau, ac nid oedd yr ymchwil yn cynnwys profi offer AI nac asesu ansawdd y cymorth y mae Busnes Cymru yn ei ddarparu. Lle mae'r adroddiad hwn yn dweud nad yw rhywbeth yn bodoli, yr hyn a olygir yw nad oedd modd dod o hyd iddo mewn ffynonellau cyhoeddedig. Mae'r amcangyfrif o'r enillion economaidd a ddaw yn sgil AI yn ddangosol ac nid yw'n rhagolwg.

7 Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n saith adran. Mae Adrannau 1 i 3 yn disgrifio'r cynllun, yr arian a sut mae Cymru'n cymharu â'i chymdogion. Mae Adran 4 yn edrych yn ôl ar raglenni cynharach, Adran 5 ar y risgiau ac Adran 6 ar werth posibl

cau'r bwlch mabwysiadu. Mae Adran 7 yn nodi'r materion y mae'r dystiolaeth yn eu codi a'r gwaith pellach sydd ei angen i'w hateb.

Canfyddiadau

8 Mae'r adroddiad yn nodi'r canfyddiadau a ganlyn.

CANFYDDIAD 1

Mae gan Gymru gynllun AI ac mae wedi dechrau ei gyflawni, ond nid oes gan y cynllun ei gyllideb ei hun.

- Nid oes gan y Cynllun AI i Gymru gyllideb, targedau nac amserlen, ac mae'n nodi "er mwyn gwireddu'r weledigaeth bydd angen buddsoddi a blaenoriaethu sylweddol".
- Galwodd adolygiadau ac un o bwyllgorau'r Senedd am gymorth cliriach i gwmnïau bach, a derbyniodd y llywodraeth argymhellion y pwyllgor o leiaf mewn egwyddor, gan gofnodi mai "Dim" neu "Eto i'w nodi" oedd eu goblygiadau ariannol.
- Nid adroddwyd eto bod unrhyw ran o'r pecyn £2.1m ar gyfer busnesau bach wedi'i gwario, ac mae'r unig arian y mae unrhyw un o gyllidebau Cymru yn ei labelu'n arian AI, sef £2.5m y flwyddyn, ar gyfer y Swyddfa AI a gwasanaethau cyhoeddus.

CANFYDDIAD 2

Ychydig o'r arian cyhoeddus ar gyfer AI yng Nghymru sydd wedi mynd at helpu'r busnesau bach sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o economi Cymru.

- Busnesau bach a chanolig yw 99.3% o fusnesau Cymru, ac maent yn cyflogi tua 715,000 o bobl, sef 62.3% o'r rhai sy'n gweithio mewn busnesau yng Nghymru.
- O'r £30.1m o arian cyhoeddus a ddyfarnwyd ar gyfer gwaith AI yng Nghymru ers mis Ebrill 2022, aeth 2.3% at helpu busnesau i fabwysiadu AI, ac aeth 82.5% i ymchwil a datblygu a 13.4% i ddefnydd cyrff cyhoeddus eu hunain.
- Mae'r Ardaloedd Twf AI yn dod â biliynau o bunnoedd o fuddsoddiad preifat a gyhoeddwyd, ac mae'r arian ar gyfer mabwysiadu lleol, hyd at £5m ym mhob ardal, yn aros am gynllun wedi'i gyhoeddi.
- Mae cwmnïau mwy yng Nghymru yn defnyddio AI yn llai na chwmnïau yn unrhyw un o wledydd eraill y DU, a'r unig fesur o'r cwmnïau lleiaf yw samplau sy'n rhy fach i fod yn ddibynadwy.

CANFYDDIAD 3

Mae cymdogion Cymru yn gwario mwy y pen ar helpu busnesau i fabwysiadu AI, ac mae Cymru'n ennill llai na'i chyfran o gyllid y DU.

- Mae Gogledd Iwerddon yn gwario tua £1.43 y pen y flwyddyn ar gymorth AI ymarferol i fusnesau, tua phedair gwaith y £0.35 y mae Cymru wedi'i ymrwymo ar y dehongliad mwyaf ffafriol.
- Mae'r Alban, Iwerddon a Gwlad y Basg yn ariannu rhaglenni sy'n mynd ymhellach, a chafodd Cymru 2.0% o arian cystadlaethau AI Innovate UK, er bod 3.4% o fusnesau'r DU yng Nghymru.

CANFYDDIAD 4

Cyrhaeddodd rhaglenni cynharach yng Nghymru lawer o gwmnïau bach, ond anaml y dangoswyd enillion parhaol.

- Cyrhaeddodd Opportunity Wales bron i 12,000 o gwmnïau bach drwy bartneriaid lleol, a chefnogodd Cyflymu Cymru i Fusnesau 6,537 o gwmnïau, 91% ohonynt yn ficrofusnesau.
- Am bob £1 a wariwyd ar adeiladu band eang cyflym iawn, gwariodd Cymru tua 6c ar helpu busnesau i'w ddefnyddio, a daeth rhaglenni cynharach i ben pan ddaeth eu cyllid i ben.

CANFYDDIAD 5

Nid yw risgiau AI wedi'u rhannu'n gyfartal, ac maent yn pwyso drymaf ar ardaloedd gwledig, siaradwyr Cymraeg a'r cwmnïau lleiaf.

- Gallai tua 45,000 o swyddi gael eu disodli erbyn 2035 ar y llwybr presennol, a'r lleoedd sydd â chysylltedd gwannach, siaradwyr Cymraeg a'r cwmnïau lleiaf sydd fwyaf mewn perygl o gael eu gadael ar ôl.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disodli a fodelwyd yn digwydd ar y llwybr presennol, pa gymorth bynnag a gynigir.

CANFYDDIAD 6

Os bydd Cymru'n dal i fyny â chyfradd mabwysiadu AI y DU erbyn 2030, gallai ennill tua £1.1bn o allbwn ychwanegol dros ddeng mlynedd.

- Mae'r enillion yn codi i tua £326m y flwyddyn erbyn 2035, byddai cwmnïau bach a chanolig yn cael tua 37% o holl enillion AI, ac mae'r adroddiad hwn yn dangos pob cam o'r cyfrifiad.

Materion i'w hystyried



9 Mae'r canfyddiadau'n codi pum mater i Lywodraeth Cymru, i Fusnes Cymru, i'r cynghorau a'r cyrff rhanbarthol, ac i Lywodraeth y DU. Fe'u nodir fel cwestiynau i'w trafod yn hytrach nag fel argymhellion, ynghyd â'r dystiolaeth sy'n berthnasol i bob un.

MATER 1

A ddylai'r Cynllun AI gael cyllideb amlflwyddyn benodol ar gyfer mabwysiadu AI gan fusnesau bach?

- Cyllideb ddrafft 2027-28, sydd i'w chyhoeddi ar 17 Tachwedd 2026, a'r cyllidebau atodol a ddaw ar ei hôl, yw'r cyfleoedd nesaf i benderfynu ar hyn.
- I roi syniad o'r raddfa, byddai cyfateb i gyfradd gwariant y pen yng Ngogledd Iwerddon yn costio tua £4.5m y flwyddyn, neu tua £13.5m dros dair blynedd.

MATER 2

Sut y gallai cymorth gyrraedd microfusnesau ac unig fasnachwyr, sef y rhan fwyaf o fusnesau Cymru?

- Argymhellodd yr Adolygiad o gymorth i fusnesau lwybr clir i gwmnïau bach fabwysiadu AI, ac nid oes unrhyw ran o'r cynnig presennol wedi'i chynllunio o amgylch y cwmnïau lleiaf.
- Mae Iwerddon a Gwlad y Basg yn cynnig llwybrau sy'n agored i gwmnïau bach iawn a rhai pobl hunangyflogedig.

MATER 3

I ba raddau y gallai cymorth gael ei arwain o Gymru, gan gynghorwyr, colegau, prifysgolion a chwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg?

- Y rhaglenni blaenorol a ddarparwyd drwy bartneriaid lleol a gyrhaeddodd y nifer fwyaf o gwmnïau, ac mae Comisiynydd y Gymraeg yn cynghori y dylid profi offer AI yn Gymraeg cyn eu defnyddio.

MATER 4

A ddylai rheolau grantiau busnes y cynghorau ganiatáu meddalwedd, tanysgrifiadau a hyfforddiant AI?

- Mae grantiau busnes y Gronfa Twf Lleol mewn o leiaf saith ardal cyngor, yng ngogledd a de Cymru, yn eithrio neu'n cyfyngu ar y costau hyn, er bod y rhan fwyaf o offer AI yn cael eu gwerthu fel tanysgrifiadau.
- Ni fyddai angen arian newydd ar gyfer newid o'r fath, ond byddai angen diogelu rhag talu am danysgrifiadau y byddai cwmnïau wedi'u prynu beth bynnag.

MATER 5

Sut y bydd arian yr Ardaloedd Twf AI ar gyfer mabwysiadu lleol yn cyrraedd cwmnïau bach lleol?

- Erbyn diwedd mis Hydref 2026, nid oedd unrhyw gynllun, corff cyflawni na swm wedi'i neilltuo ar gyfer cwmnïau bach wedi'i gyhoeddi, ac nid oedd Cyllideb y DU ar 28 Hydref 2026 yn sôn amdano, felly ni all busnesau weld eto beth fydd ar gael iddynt.

ADRAN 1

1 Mae gan Gymru gynllun AI ac mae wedi dechrau ei gyflawni, ond nid oes gan y cynllun ei gyllideb ei hun



Y cynllun a'i nod

10 Cyhoeddwyd y Cynllun AI i Gymru, "AI Cymru", gan y llywodraeth Lafur flaenorol ar 18 Tachwedd 2025.[1] Ei nod ar gyfer busnes yw "helpu busnesau bach a chanolig, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, a diwydiannau allweddol i fabwysiadu AI a chystadlu'n fyd-eang".[1]

11 Mae'r cynllun yn datgan yr hyn sydd ei angen arno. Mae'n nodi bod "rhai o'r camau gweithredu cyntaf yn y Cynllun wedi'u hariannu", ond "er mwyn gwireddu'r weledigaeth bydd angen buddsoddi a blaenoriaethu sylweddol".[1] Nid yw'n pennu cyllideb, targedau mesuradwy, amserlen na fframwaith monitro, ac nid yw'n sôn am ficrofusnesau, unig fasnachwyr na phobl hunangyflogedig.[1]

12 Daeth y cyngor a oedd yn sail i'r cynllun i gasgliadau tebyg. Dywedodd y llywodraeth ei bod yn derbyn canfyddiadau ei hadolygiad arbenigol o AI yn llawn.[14] Canfu'r unig adroddiad cyhoeddedig ar yr adolygiad hwnnw, yn yr Adolygiad o gymorth i fusnesau ym mis Tachwedd 2025, fod y cymorth AI i fusnesau "yn dameidiog ac nid yw bob amser wedi'i deilwra i ddeallusrwydd artiffisial", ac argymhellodd yr Adolygiad o gymorth i fusnesau "llwybr clir sy'n cynnwys cymorth pwrpasol, i fusnesau bach a chanolig fabwysiadu deallusrwydd artiffisial".[14]

13 Mae'r Senedd wedi gofyn am rywbeth tebyg. Argymhellodd yr unig adroddiad gan un o bwyllgorau'r Senedd ar AI a'r economi, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2025, y dylid adolygu'r cymorth AI i fusnesau a dadansoddi'r grwpiau sydd fwyaf mewn perygl o golli gwaith o ganlyniad i AI.[15] Derbyniodd y llywodraeth bob un o'r wyth argymhelliad, o leiaf mewn egwyddor, ond cofnododd mai "Dim" neu "Eto i'w nodi" oedd goblygiadau ariannol pob un.[16] Ddiwedd mis Hydref 2026, nid oedd gan Bwyllgor yr Economi, Ynni a Chysylltedd yn y Senedd bresennol unrhyw ymchwiliad i AI ar y gweill.[17] Mae'r cynllun, yr adolygiadau a'r Senedd yn disgrifio anghenion tebyg, ond nid oes yr un ohonynt yn clustnodi arian ar gyfer eu diwallu.

Y camau cyntaf, a'r arian y tu ôl iddynt

14 Ar 12 Ionawr 2026, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £2.1m i helpu busnesau bach a chanolig, entrepreneuriaid a microfusnesau i fabwysiadu AI.[5] Roedd y pecyn yn cynnwys £600,000 ar gyfer rhaglen Busnes Cymru ar gyfer ymwybyddiaeth o AI a mabwysiadu AI, £500,000 ar gyfer cymorth AI ym maes twristiaeth a digwyddiadau, ac £1m ar gyfer hyfforddiant AI â chymhorthdal drwy'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg.[5]

15 Mae'r gwaith cyflawni wedi dechrau. Mae M-SParc yn cyflwyno rhaglen Busnes Cymru ledled Cymru, gyda chynghorwyr yn eu swyddi tan 31 Mawrth 2027.[4] Ddechrau mis Hydref 2026, roedd rhestr digwyddiadau Busnes Cymru yn dangos 22 o ddigwyddiadau AI am ddim ar gyfer y tri mis dilynol, gan gynnwys

cyflymyddion deuddydd sy'n agored i unig fasnachwyr. Ddiwedd mis Hydref, roedd yn dangos 16 o sesiynau AI am ddim ar gyfer mis Tachwedd a mis Rhagfyr, naw ohonynt wyneb yn wyneb.[18] Llenwodd gweithdai AI i fusnesau twristiaeth a gynhaliwyd gan MWT Cymru yn gyflym, ac mae rhagor o weithdai a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn parhau tan 24 Tachwedd 2026.[19, 20] Mae'r cymhorthdal hyfforddiant wedi'i ymestyn hyd at ddiwedd 2026-27.[21, 22] Dyma'r camau ymarferol cyntaf o dan y cynllun.

16 Prin yw'r manylion cyhoeddedig am y camau cyntaf hyn o hyd. Ni chyhoeddwyd llinell gyllideb, gwerth contract, targedau, ffigurau ar y nifer sy'n manteisio na gwariant ar gyfer rhaglen Busnes Cymru, ac ar ddiwedd mis Hydref 2026 roedd tudalen Saesneg Busnes Cymru ar AI yn dal i ddweud bod Busnes Cymru "yn datblygu rhaglen gymorth ar gyfer ymwybyddiaeth o AI a mabwysiadu AI", er bod y gwaith cyflawni wedi dechrau.[4, 23] Mae'r cyhoeddiad am y £500,000 ar gyfer twristiaeth a digwyddiadau yn disgrifio Prosiect Peillio Deallusrwydd Artiffisial gyda Chanolfan Hwb Hartree Caerdydd a gweithdai wyneb yn wyneb ar gyfer hyd at 1,000 o fusnesau twristiaeth, ond nid oes unrhyw ffynhonnell yn nodi faint o'r arian hwnnw a wariwyd na faint o fusnesau sydd wedi cymryd rhan.[5, 19, 20] Yr unig ganlyniad a adroddwyd yw datganiad y Gweinidog, a ddyfynnwyd gan Business News Wales, fod y busnesau a gymerodd ran yn y gweithdai twristiaeth wedi gweld cynnydd o 64% ar gyfartaledd yn y traffig i'w gwefannau. Mae un o dudalennau Croeso Cymru yn rhoi cynnydd o 63% yn y traffig organig i wefannau, ac nid yw'r naill ffynhonnell na'r llall yn nodi faint o fusnesau y mae'r ffigur yn eu cwmpasu na sut y mesurwyd y cynnydd.[20] Nid oedd unrhyw ffigurau ar y nifer sy'n manteisio ar y cymhorthdal hyfforddiant wedi'u rhoi i'r Senedd erbyn diwedd mis Hydref 2026, ac ni roddodd y Gweinidog unrhyw ffigurau pan gyfeiriodd at y cynllun peilot sgiliau AI yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Hydref.[22, 24] Dim ond yr £1m ar gyfer hyfforddiant a neilltuwyd erioed mewn cyllideb, a hynny ar gyfer 2025-26 yn unig.[25, 7] Fwy na naw mis ar ôl cyhoeddi'r pecyn, nid oes unrhyw wariant ohono wedi'i adrodd.

TABL 1 **Nid yw'r gwariant, y nifer sy'n manteisio na'r targedau ar gyfer pob rhan o'r pecyn AI ar gyfer busnesau bach wedi'u cyhoeddi eto.**

Rhan o'r pecyn	Swm	Yr hyn a gyhoeddwyd
Rhaglen Busnes Cymru ar gyfer ymwybyddiaeth o AI a mabwysiadu AI	£600,000 wedi'i gyhoeddi	Mae M-SParc wedi dechrau ei chyflwyno ledled Cymru. Ni chyhoeddwyd llinell gyllideb, gwerth contract, targedau, ffigurau ar y nifer sy'n manteisio na gwariant.
Cymorth AI ar gyfer twristiaeth a digwyddiadau	£500,000 wedi'i gyhoeddi	Cynhaliwyd gweithdai ar gyfer busnesau twristiaeth, ac maent yn parhau tan fis Tachwedd 2026. Mae'r cyhoeddiad yn cysylltu gweithdai ar gyfer hyd at 1,000 o fusnesau twristiaeth â'r arian hwn, ond nid oes unrhyw wariant na ffigurau ar y nifer sy'n manteisio wedi'u cyhoeddi.
Hyfforddiant AI drwy'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg	Hyd at £1m wedi'i neilltuo ar gyfer 2025-26	Mae'r cynllun wedi'i ymestyn i 2026-27 heb nodi swm. Ni chyhoeddwyd unrhyw ffigurau ar y nifer sy'n manteisio na'r canlyniadau.
Cyfanswm	**£2.1m**	**Nid oes unrhyw wariant wedi'i adrodd eto.**

Mae'r tabl yn seiliedig ar gyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar 12 Ionawr 2026, ei hatebion i gwestiynau ysgrifenedig yn y Senedd, disgrifiad swydd M-SParc ac adroddiadau am y gweithdai twristiaeth.[5, 4, 25, 21, 22, 20]

> “[Bydd y rhaglen hon] yn ein helpu i sicrhau bod busnesau bach a chanolig ar draws pob sector yng Nghymru yn barod i wneud y gorau o botensial technolegau AI sy’n dod i’r amlwg mewn ffyrdd cyfrifol, cynhwysol ac uchelgeisiol.”
>
> Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ar y pryd, 12 Ionawr 2026 [5]

17 Yr unig arian y mae unrhyw un o ddogfennau cyllideb Llywodraeth Cymru yn ei labelu fel AI yw £2.5m y flwyddyn yn 2025-26 a 2026-27 ar gyfer y Swyddfa AI a chronfa ar gyfer AI mewn gwasanaethau cyhoeddus, ac nid oes unrhyw linell gyllideb rhwng 2022-23 a 2026-27 wedi’i henwi ar gyfer AI, gan gynnwys yn yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2026-27 a osodwyd ym mis Hydref 2026. [2, 26] Hyd yma, felly, mae’r unig arian AI yng nghyllideb Cymru ar gyfer gwaith y llywodraeth ei hun, ac nid oes llinell gyllideb ar gyfer helpu busnesau i fabwysiadu AI.

Llywodraeth newydd

18 Daeth Plaid Cymru i rym ym mis Mai 2026. [8] Mae Adam Price AS, Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, yn gyfrifol am bolisi ar AI ac am Fusnes Cymru fel ei gilydd. [27] Mae Rhaglen Lywodraethu 2026 i 2030 yn ymrwymo i gyflwyno Strategaeth Ddigidol newydd a fydd yn “creu’r amodau ar gyfer mabwysiadu AI mewn ffordd ddiogel a moesegol er mwyn cynyddu cynhyrchiant a darparu gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon”, ond nid yw’n sôn am y Cynllun AI, y pecyn £2.1m, microfusnesau nac unig fasnachwyr. [28, 29] Mewn ateb ysgrifenedig i gwestiwn yn y Senedd ym mis Hydref 2026, dywedodd Prif Weinidog Cymru fod gwaith ar y gweill i gwmpasu themâu a blaenoriaethau’r strategaeth, ac ni roddodd yr ateb hwnnw nac ateb diweddarach gan y Gweinidog ddyddiad cyhoeddi. [30] Nid yw nod y llywodraeth o haneru’r bwlch cynhyrchiant â’r DU o fewn deng mlynedd yn sôn am AI, [31] er bod Adran 6 yn awgrymu y gallai mabwysiadu AI wneud cyfraniad mesuradwy at allbwn Cymru.

19 Mae’r llywodraeth newydd wedi dangos diddordeb mewn AI. Mae papur tystiolaeth y Gweinidog i Bwyllgor yr Economi, Ynni a Chysylltedd y Senedd, dyddiedig 30 Medi 2026, yn addo dull cenedlaethol mwy cydgysylltiedig o ymdrin ag AI. [9] Nid yw cofnod sesiwn y pwyllgor y diwrnod hwnnw yn sôn am AI wrth ei enw. Codwyd canolfannau data mewn cwestiynau am y grid trydan a defnydd tir, ac ni ofynnodd yr un aelod am gymorth i fusnesau bach fabwysiadu AI. [32] Fel Aelod meinciau cefn ym mis Medi 2025, gan ailadrodd tystiolaeth gan y cwmni Amplyfi, galwodd Adam Price am gronfa arloesi AI, er nad oes cronfa o’r fath wedi’i chyhoeddi eto. [33] Mewn sgwrs yn Harvard ym mis Hydref 2026, dywedodd mai’r ras i adeiladu’r modelau AI mwyaf datblygedig yw “y ras anghywir i’w gwylio” i Gymru, a phwysleisiodd fabwysiadu AI. [34, 35] Ar 13 Hydref 2026, gofynnodd dau Aelod i’r llywodraeth am ddatganiadau ar AI, a dywedodd y Trefnydd, sef y gweinidog sy’n gyfrifol am fusnes y llywodraeth, yn Gymraeg y byddai’n codi eu ceisiadau er mwyn sicrhau bod yr Aelodau’n cael y wybodaeth ddiweddaraf. Nid oedd unrhyw ddatganiad ar AI ar agendâu’r Cyfarfod Llawn ar 20 a 21 Hydref. [36, 24] Ar 21 Hydref, dywedodd y Gweinidog wrth y Senedd fod fframwaith llywodraethu cenedlaethol ar gyfer AI yn cael ei lunio, a chyfeiriodd at fuddsoddiad y llywodraeth “mewn sgiliau digidol a deallusrwydd artiffisial trwy gyfrifon dysgu personol a’n cynllun peilot sgiliau deallusrwydd artiffisial”, heb roi ffigurau ar y gyllideb na’r nifer sy’n manteisio. [24]

> “...un o’r meysydd allweddol yw bod arnom angen mynediad at gyfalaf, felly mae arnom angen cronfa arloesi deallusrwydd artiffisial sy’n canolbwyntio... ar ble mae ein potensial, ond hefyd ar ble mae ein cenadaethau.”
>
> Adam Price AS, yn siarad yn y Senedd fel Aelod meinciau cefn, 24 Medi 2025, gan ailadrodd tystiolaeth gan Amplyfi [33]

20 Nid oedd Cyllideb Atodol Gyntaf y llywodraeth newydd yn cynnwys unrhyw arian ar gyfer AI, a chafodd ei threchu ar 14 Gorffennaf 2026, felly cyllideb ddrafft 2027-28 fydd ei chyllideb lawn gyntaf. [37, 10] Nid yw’r Ail Gyllideb Atodol, a osodwyd ar 13 Hydref 2026 yn dilyn cytundeb â Llafur Cymru ar £60m ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, yn cynnwys unrhyw arian ar gyfer AI ychwaith, ac mae’n gadael llinell gyllideb Busnes Cymru heb ei newid. Mae disgwyl iddi gael ei thrafod ar 3 Tachwedd 2026. [37, 26, 38] Cafodd y Gyllideb Atodol Gyntaf ei threchu a daeth yr ail yn sgil cytundeb â phlaid arall, sy’n awgrymu y bydd angen cefnogaeth o leiaf un blaid arall ar gyllideb 2027-28 hefyd.

21 Un o nodweddion trefniadau Cymru yw perchnogaeth glir. Mae Carnegie UK wedi rhybuddio bod “perygl y daw AI yn flaenoriaeth i bawb ac yn gyfrifoldeb clir i neb” ar lefel y DU. [39] Yng Nghymru, mae un gweinidog yn gyfrifol am bolisi AI ac am Fusnes Cymru. [27] Mae’r llywodraeth hefyd yn dylunio asiantaeth ddatblygu genedlaethol newydd. Penodwyd aelodaeth lawn ei Phanel Cynghori Arbenigol ym mis Medi 2026, ac mae’r Gweinidog yn disgwyl rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Senedd yn gynnar yn 2027, ar ôl adroddiad interim y panel. Nid oes dim a gyhoeddwyd hyd yma yn nodi a fydd Busnes Cymru neu’r cymorth i fabwysiadu AI yn rhan o’r asiantaeth. [40] Ym mis Medi 2026, dechreuodd Pwyllgor yr Economi, Ynni a Chysylltedd y Senedd ymchwiliad cychwynnol i’r asiantaeth, sy’n ceisio mwy o eglurder ynghylch syniadau’r llywodraeth am faterion sy’n cynnwys ei chylch gwaith, ei chyllideb a’i phwerau. [17] Mae gan y cynllun berchennog a nod, ond nid oes ganddo gyllideb eto.

ADRAN 2

2 Mae busnesau bach yn ffurfio'r rhan fwyaf o economi Cymru, ond ychydig o'r arian cyhoeddus ar gyfer AI sydd wedi mynd at eu helpu i'w fabwysiadu

Busnesau bach yw economi Cymru

22 Economi o gwmnïau bach yw economi Cymru. O'r 246,500 o fusnesau a oedd yn weithredol yng Nghymru yn 2025, roedd gan 99.3% lai na 250 o weithwyr, a gyda'i gilydd roeddent yn cyflogi 714,900 o bobl, sef 62.3% o bawb a oedd yn gweithio mewn busnesau yng Nghymru. Microfusnesau, sef busnesau â llai na deg o weithwyr, oedd 94.6% o'r holl fusnesau. [41]

TABL 2 **Busnesau bach a chanolig yw 99.3% o fusnesau Cymru, ac maent yn cyflogi 62.3% o'r bobl sy'n gweithio mewn busnesau yng Nghymru.**

Maint y busnes	Busnesau	Cyfran y busnesau	Pobl a gyflogir	Cyfran y gyflogaeth
Micro (0 i 9 o weithwyr)	233,090	94.6%	377,800	33.0%
Bach (10 i 49 o weithwyr)	9,430	3.8%	177,700	15.5%
Canolig (50 i 249 o weithwyr)	2,255	0.9%	159,400	13.9%
Pob busnes bach a chanolig	**244,775**	**99.3%**	**714,900**	**62.3%**
Mawr (250 neu fwy o weithwyr)	1,730	0.7%	431,700	37.7%
Pob busnes	**246,500**	**100%**	**1,146,400**	**100%**

Mae'r ffigurau'n ymwneud â busnesau a oedd yn weithredol yng Nghymru yn 2025, ac maent yn dod o ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o fusnesau gweithredol yn ôl maint. [41] Nid yw'r rhesi'n adio'n union i'r cyfansymiau cyhoeddedig oherwydd talgrynnu, a'r cyfrannau ar gyfer pob busnes bach a chanolig ac ar gyfer busnesau mawr yw'r ffigurau cyhoeddedig.

23 Mae'r cwmnïau lleiaf yn bwysicaf y tu allan i'r dinasoedd. Mae microfusnesau'n darparu 52.6% o gyflogaeth yng Ngheredigion a 51.6% ar Ynys Môn, o'i gymharu â 24.3% yng Nghaerdydd. [41, 42] Byddai cymorth nad yw'n cyrraedd microfusnesau ac unig fasnachwyr yn methu'r rhan fwyaf o fusnesau Cymru a llawer o'r economi wledig.

I ble mae'r arian wedi mynd

24 Casglwyd ynghyd pob eitem o arian cyhoeddus ar gyfer AI yng Nghymru y gellid dod o hyd iddi mewn grantiau, contractau a thaliadau a gyhoeddwyd rhwng mis Ebrill 2022 a chanol mis Hydref 2026. [7, 43, 44] O'r £30.1m o grantiau a chontractau a


oedd yn amlwg ar gyfer AI, aeth £702,123 at helpu busnesau i'w fabwysiadu. Mae hynny'n cyfateb i 2.3%, neu tua **2c** ym mhob £1. Aeth 82.5% i ymchwil a datblygu, ac aeth 13.4% i ddefnydd cyrff cyhoeddus eu hunain o AI. [7, 43, 44]

TABL 3 **Mae tua 2c ym mhob £1 o arian cyhoeddus a ddyfarnwyd ar gyfer gwaith AI yng Nghymru wedi mynd at helpu busnesau i fabwysiadu AI.**

Diben	Wedi'i ddyfarnu	Cyfran o'r cyfanswm a ddyfarnwyd
Ymchwil a datblygu	£24,861,418	82.5%
Defnydd cyrff cyhoeddus eu hunain o AI	£4,028,835	13.4%
Helpu busnesau i fabwysiadu AI	£702,123	**2.3%**
Sgiliau AI	£311,069	1.0%
Llywodraethu a pholisi	£246,096	0.8%
Cyfanswm	**£30,149,541**	**100%**

Mae'r tabl yn cwmpasu grantiau a chontractau sy'n amlwg ar gyfer AI, a ddyfarnwyd yng Nghymru rhwng mis Ebrill 2022 a chanol mis Hydref 2026, ac mae'n cynnwys y dyfarniadau a ychwanegwyd at gofnodion Innovate UK ar 12 Hydref 2026 a chontract UKRI gyda Redpen AI o'r Drenewydd. [7, 43, 44] Mae Sgiliau AI yn cynnwys AI Workforce Bridge Wales, un o bum prosiect yng Nghymru a enwyd ym mis Hydref 2026 i dderbyn arian o'r UK TechFirst Local Fund. Mae dau arall, Tech Talent Cymru a VIBE Amplified, yn ymdrin ag AI a seiberddiogelwch gyda'i gilydd, felly maent wedi'u hepgor o'r prif ffigurau. [43, 45] Os caiff un prosiect sy'n profi AI yng ngwaith cynhyrchu cwmni ei hun ei gyfrif fel ymchwil yn hytrach na mabwysiadu, y gyfran ar gyfer helpu busnesau i fabwysiadu AI yw 2.1%. [43]

FFIGUR 1 **Arian cyhoeddus a ddyfarnwyd ar gyfer gwaith AI yng Nghymru, Ebrill 2022 i ganol mis Hydref 2026, yn ôl diben. Cyfanswm £30.1m.**



Ffynhonnell: Felix Clarke, Cydweithfa AI Cymru, dadansoddiad o grantiau, contractau a thaliadau a gyhoeddwyd, gan gynnwys cofnodion Innovate UK hyd at 12 Hydref 2026 (Tabl 3). Dim ond grantiau a chontractau sy'n amlwg ar gyfer AI sydd wedi'u cynnwys. O'r £30.1m a ddyfarnwyd, aeth 2.3% i helpu busnesau i fabwysiadu AI.

25 Mae ymchwil yn bwysig, ac mae cwmnïau bach yng Nghymru wedi ennill tua £9.67m gan Innovate UK i ddatblygu cynhyrchion AI. [6, 43] Mae'r gwariant ar fabwysiadu wedi bod yn llawer llai. O'i rannu ar draws y 246,500 o fusnesau yng Nghymru, mae'r arian a ddyfarnwyd i helpu busnesau i fabwysiadu AI yn dod i tua £2.85 fesul busnes dros bedair blynedd a hanner. [7, 43, 41]

26 Nid oedd yr arian ar gyfer mabwysiadu wedi'i gynllunio ar gyfer y cwmnïau lleiaf ychwaith. Aeth i brosiectau Innovate UK gwerth £602,123 ac i raglen AI Enable Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sef contract gwerth £100,000 ar gyfer y cyfnod

rhwng mis Mai 2026 a mis Mai 2027.[6, 43, 46] Mae erthygl gan Tramshed Tech yn disgrifio'r rhaglen honno fel un sy'n canolbwyntio ar "arweinwyr BBaCh sydd â thimau o 10-50 o weithwyr",[47] ond mae tudalen y rhaglen yn ei disgrifio fel rhaglen ar gyfer "Arweinwyr BBaCh uchelgeisiol o unrhyw ddiwydiant ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd", nid yw'r contract yn pennu unrhyw derfyn maint, ac ar ddiwedd mis Hydref 2026 roedd y dudalen yn dweud bod y rhaglen "heb fynd yn fyw eto".[46, 48] Mae'n gwasanaethu un rhanbarth ac nid oes ganddi lwybr wedi'i gynllunio ar gyfer microfusnesau ac unig fasnachwyr. Agorodd cystadleuaeth fabwysiadu ddiweddaraf y DU, BridgeAI Deployment Catalyst, ar 21 Hydref 2026 gyda hyd at £5m ar gyfer ei cham cyntaf, ac mae Innovate UK yn disgwyl hyd at £52m ar draws tri cham, yn amodol ar gymeradwyaeth. Rhaid i'r sefydliad sy'n mabwysiadu'r AI fod yn fusnes canolig neu fawr neu'n gorff cyhoeddus.[49]

Canolfannau data a'r Ardaloedd Twf AI

27 Mae'r ddwy Ardal Twf AI yng Nghymru yn dod â biliynau o bunnoedd o fuddsoddiad preifat a gyhoeddwyd mewn canolfannau data, ynghyd ag addewid, yng ngeiriau Llywodraeth y DU, o fwy nag 8,000 o swyddi.[3, 50, 51]

> "Yng ngogledd Cymru, mae hynny'n golygu miloedd o swyddi newydd a £5 miliwn i roi hwb i sgiliau a helpu busnesau lleol i ddechrau defnyddio deallusrwydd artiffisial."
>
> Keir Starmer, Prif Weinidog y DU ar y pryd, 13 Tachwedd 2025[3]

28 Ni fydd canolfan ddata, ar ei phen ei hun, yn dangos i gwmni lleol sut i ddefnyddio AI. Dyna ddiben yr arian ar gyfer mabwysiadu lleol, sef hyd at £5m ar gyfer pob ardal yng Nghymru "ar gyfer mabwysiadu gan fusnesau a sgiliau", er bod ei ddibenion datganedig hefyd yn cynnwys ymchwil a busnesau newydd.[3, 50, 52] Nid oedd unrhyw gynllun, corff cyflawni na dyfarniad wedi'i gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref 2026, ac nid oedd Cyllideb y DU ar 28 Hydref 2026 yn sôn amdano.[52, 53, 54] Mae swyddogaethau adran y DU a gyhoeddodd yr arian wedi'u hailddosbarthu ers hynny, ac ym mis Hydref 2026 cadarnhaodd Llywodraeth y DU mai'r Adran Busnes, Arloesi, Gwyddoniaeth a Masnach sydd bellach yn arwain ar Ardaloedd Twf AI ac ar fabwysiadu AI ar draws yr economi.[55, 56] Y £10m ar gyfer y ddwy ardal yng Nghymru yw'r rhan fwyaf o'r £11.1m a gyhoeddwyd ar gyfer helpu busnesau yng Nghymru i fabwysiadu AI, ac nid oes ganddo eto lwybr cyhoeddedig i gyrraedd cwmnïau bach.[7] Yn yr un Gyllideb, cyflwynwyd Cyfamod Canolfannau Data (Data Centre Covenant), ac o dan y cyfamod hwnnw dylai canolfannau data strategol sy'n ceisio cymorth ychwanegol gan y llywodraeth gytuno ar Gynllun Budd Lleol (Local Benefit Plan) a chreu swyddi, prentisiaethau a lleoedd hyfforddi, er nad yw'n sôn am yr Ardaloedd Twf AI.[54]

Y cynnig presennol a'r cwmnïau lleiaf

29 Mae microfusnesau'n cael eu henwi ym mhecyn mis Ionawr 2026, ac mae cyflymyddion Busnes Cymru yn agored i unig fasnachwyr.[5, 18] Fodd bynnag, nid oes gan unrhyw ran o'r pecyn ei dyluniad, ei meini prawf cymhwysedd na'i thargedau ei hun ar gyfer y cwmnïau hyn. Nid yw'r cyfraniad o 25% gan y cyflogwr o dan y cymhorthdal hyfforddiant yn gweddu'n dda i unig fasnachwyr, ac nid yw Cyfrifon Dysgu Personol, sy'n agored i bobl hunangyflogedig, yn cynnig unrhyw opsiwn penodol ar gyfer AI.[57, 58]

30 Mae sawl un o grantiau busnes y cynghorau a ariennir gan y Gronfa Twf Lleol yn eithrio'r hyn y byddai microfusnes yn ei brynu er mwyn mabwysiadu AI. Mae grant Pen-y-bont ar Ogwr yn eithrio "ffioedd trwyddedau a thanysgrifiadau", mae grant Rhondda Cynon Taf yn eithrio "hyfforddiant, meddalwedd, tanysgrifiadau", a dim ond pan fydd yn gysylltiedig â gwariant cyfalaf y mae Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn caniatáu meddalwedd arbenigol.[59, 60, 61, 62] Yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint, mae'r grant y mae Cadwyn Clwyd yn ei weinyddu yn trin mabwysiadu digidol fel gwariant cyfalaf ac yn eithrio "tanysgrifiadau parhaus, costau cynnal (hosting), cynnal a chadw neu gymorth" o feddalwedd ar gyfer rheoli stoc, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y mae Blaenau Gwent yn caniatáu trwyddedau meddalwedd hanfodol, pan fyddant yn gysylltiedig ag offer a ariennir.[63, 64] Mae'r rhan fwyaf o offer AI yn cael eu gwerthu fel tanysgrifiadau, felly mae'r rheolau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar fabwysiadu AI. Mae grantiau Sir Benfro wedi'u gohirio bellach am fod gormod o geisiadau, ac mae grant Sir Gaerfyrddin wedi cau i ddatganiadau o ddiddordeb newydd, felly bydd y rheolau'n bwysicaf pan fydd y cylchoedd nesaf yn cael eu cynllunio.[61, 62]

Mae cwmnïau Cymru eisoes ar ei hôl hi, a dim ond samplau bach sy'n mesur y rhai lleiaf


31 Mae cwmnïau mwy yng Nghymru eisoes yn defnyddio AI yn llai na chwmnïau mewn rhannau eraill o'r DU. Yn 2024, ymhlith cwmnïau yng Nghymru â deg neu fwy o weithwyr a oedd yn defnyddio technolegau cynhyrchu digidol, roedd 24.8% yn defnyddio AI, o'i gymharu â 34.9% yn Lloegr, 26.2% yn yr Alban a 25.1% yng Ngogledd Iwerddon.[65]

TABL 4 **Cymru oedd â'r gyfran isaf o gwmnïau mwy yn defnyddio AI o blith pedair gwlad y DU yn 2024.**

Gwlad	Cyfran y cwmnïau sy'n defnyddio AI, 2024
Lloegr	34.9%
Y Deyrnas Unedig	33.7%
Yr Alban	26.2%
Gogledd Iwerddon	25.1%
Cymru	24.8%

Mae'r ffigurau'n cwmpasu cwmnïau â deg neu fwy o weithwyr a oedd yn defnyddio o leiaf un dechnoleg cynhyrchu digidol a restrwyd, ac maent yn dod o Arolwg Arloesi'r DU 2025.[65]

FFIGUR 2 **Cyfran y cwmnïau a oedd yn defnyddio AI yn 2024, yn ôl gwlad**



Ffynhonnell: Arolwg Arloesi y DU 2025 (Tabl 4). Mae'r ffigurau'n cwmpasu cwmnïau â deg neu fwy o weithwyr a oedd yn defnyddio o leiaf un dechnoleg gynhyrchu ddigidol.

32 Mae'r defnydd o AI wedi cynyddu'n gyflym ers 2024, ac erbyn mis Medi 2026 roedd 38% o fusnesau'r DU â deg neu fwy o weithwyr yn ei ddefnyddio, felly mae'r lefelau hyn wedi dyddio, ond y bwlch rhwng Cymru a Lloegr yw'r canfyddiad mwy parhaol.[66, 67] Ymhlith y cwmnïau sy'n arloesi y mae'r bwlch hwnnw. Roedd cwmnïau yng Nghymru sy'n arloesi yn defnyddio AI yn llawer llai na'u cymheiriaid yn Lloegr (26.3% o'i gymharu â 41.8%), ond roedd y cwmnïau nad ydynt yn arloesi bron yn gyfartal (23.5% o'i gymharu â 24.4%).[65] Mae cwmnïau yng Nghymru yn llai tebygol o wneud defnydd difrifol o AI, nid yn unig yn llai tebygol o roi cynnig arno, sy'n awgrymu efallai na fydd ymwybyddiaeth ar ei phen ei hun yn cau'r bwlch.

33 Ar gyfer y cwmnïau lleiaf, mae'r unig fesurau ar gyfer Cymru yn seiliedig ar samplau bach. Mae tua hanner busnesau'r sector preifat yng Nghymru y tu allan i'r gofrestr y caiff y rhan fwyaf o'r arolygon busnes swyddogol eu tynnu ohoni.[68] Yn ôl arolwg gan Lywodraeth y DU o bob busnes, gan gynnwys unig fasnachwyr, a gynhaliwyd ddiwedd 2025, roedd y defnydd o AI yng Nghymru yn 34.6% o'i gymharu â 34.9% ar gyfer y DU, ond mae'r ymyl gwall mor eang (19% i 50%) fel nad yw'n gallu cadarnhau na diystyru bwlch.[69] Ni ofynnodd yr Arolwg Arhydol Busnesau Bach unrhyw gwestiwn am AI yn 2024, ond gofynnodd gwestiwn o'r fath yn 2025 i un rhan o'i sampl.[70, 71] O blith y cyflogwyr bach a chanolig a oedd yn defnyddio unrhyw dechnoleg, roedd 28% yng Nghymru yn defnyddio AI, y gyfran isaf o'r pedair gwlad, o'i gymharu â 35% yn Lloegr a 34% ar draws y DU, er mai 150 o fusnesau oedd y sampl yng Nghymru, ac mai dim ond un pwynt canran yn uwch oedd ffigur yr Alban.[71] Ymhlith busnesau heb weithwyr a oedd yn defnyddio technoleg, roedd ffigur Cymru yn 32% o'i gymharu â 42% ar gyfer y DU, ar sail 32 o ymatebion yn unig o Gymru.[72] Nid yw arolygon preifat yn llenwi'r bwlch. Mae ffigurau NatWest ar gyfer Cymru ym mis Medi 2026 yn seiliedig ar 59 o gwmnïau a oedd eisoes yn defnyddio AI, felly ni allant fesur mabwysiadu, er i'r un arolwg ganfod bod nifer gweithwyr cwmni yn esbonio llawer mwy o'i ddefnydd o AI na'i ranbarth.[73] Ni all cenedl y mae ei heconomi wedi'i seilio ar gwmnïau bach weld yn glir eto sut mae'r cwmnïau hynny'n defnyddio AI.

> **"Os daw AI yn rhywbeth na fydd neb ond cwmnïau mwy yn teimlo y gallant ei fabwysiadu'n hyderus, rydym mewn perygl o ehangu'r bwlch rhwng busnesau sydd â'r amser, yr arian a'r cymorth cyfreithiol i arbrofi, a'r rhai sydd eisoes dan straen oherwydd pwysau bob dydd."**
>
> Joshua Miles, Pennaeth FSB Cymru, 21 Awst 2026[74]

ADRAN 3

3 Mae cymdogion Cymru yn gwario mwy y pen, ac mae Cymru'n ennill llai na'i chyfran o gyllid y DU



34 Mae cenhedloedd a rhanbarthau bach eraill wedi mynd ymhellach na Chymru i helpu cwmnïau bach i fabwysiadu AI. Mae eu cynlluniau'n amrywio, ond mae ganddynt dair nodwedd yn gyffredin nad ydynt yn rhan o'r cynnig presennol yng Nghymru eto. Maent yn talu am gymorth arbenigol neu am roi AI ar waith, nid am godi ymwybyddiaeth yn unig. Maent yn agored i'r cwmnïau lleiaf. Maent hefyd yn mesur yr hyn sy'n digwydd.

35 Mae gan Ogledd Iwerddon ganolfan gwerth £16.3m, yr AI Collaboration Centre, sy'n rhoi cymorth ymarferol wedi'i ariannu'n llawn gan arbenigwyr AI i fusnesau cymwys, gan weithio gyda Phrifysgol Ulster a Phrifysgol Queen's Belfast. Mae'r galw wedi bod yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael, ac am y rheswm hwnnw mae'r ceisiadau ar gyfer ei charfan yn yr hydref bellach wedi cau. Mae'r ganolfan yn cyhoeddi cyfrifiad blynyddol o allu AI, a chanfu ei chyfrifiad yn 2026 nad oedd tua 45% o fusnesau Gogledd Iwerddon yn defnyddio AI o hyd. [75, 76, 77] Cyfran Invest Northern Ireland o'r gost yw £13.8m dros bum mlynedd, tua £2.76m y flwyddyn, sef tua £1.43 y pen bob blwyddyn. [75, 78]


36 O ddehongli'r ffigurau yn y ffordd fwyaf ffafriol i Gymru, gan dybio bod y £1.1m a gyhoeddwyd ar gyfer rhaglen Busnes Cymru a'r cymorth i'r sector twristiaeth yn cael ei wario mewn un flwyddyn, mae Cymru wedi ymrwymo tua £0.35 y pen, ac mae Gogledd Iwerddon yn gwario oddeutu pedair gwaith cymaint. Mae'r gymhariaeth yn ddangosol, gan fod y cynlluniau'n amrywio o ran cyfnod, cwmpas a dyluniad.

TABL 5 **Mae Gogledd Iwerddon yn gwario oddeutu pedair gwaith cymaint y pen ar gymorth AI ymarferol i fusnesau ag y mae Cymru wedi'i ymrwymo.**

Cenedl neu ranbarth	Rhaglen	Arian	Y pen bob blwyddyn
Gogledd Iwerddon	AI Collaboration Centre, cyfran Invest Northern Ireland	£13.8m dros bum mlynedd	£1.43
Cymru	Rhaglen Busnes Cymru a chymorth i'r sector twristiaeth	£1.1m wedi'i gyhoeddi, cyfnod heb ei nodi	£0.35 os caiff ei wario mewn un flwyddyn
Yr Alban	Rhaglen genedlaethol mabwysiadu AI, yr ail flwyddyn	£1.8m yn 2026-27	£0.32
Gwlad y Basg	Grantiau ar gyfer prosiectau AI, galwad 2026 (yn cau 2 Tachwedd 2026)	€14m	Tua £5.36

Mae'r ffigurau wedi'u cyfrifo o gyllidebau'r rhaglenni ac amcangyfrifon swyddogol o'r boblogaeth, gyda symiau mewn ewro wedi'u trosi ar gyfradd o tua 85c yr ewro. [5, 79, 75, 80, 78] Cynllun grantiau mawr ar gyfer diwydiant yw cynllun Gwlad y Basg, ac fe'i dangosir i roi syniad o'r raddfa yn unig. Mae rheolau cyhoeddedig yr alwad yn pennu €11m, ac mae Llywodraeth Gwlad y Basg a'i hasiantaeth datblygu busnes bellach yn nodi €14m. [80, 81] Nid yw ffigur Cymru yn cynnwys y cymhorthdal hyfforddiant o £1m, sy'n talu am gyrsiau yn hytrach na chymorth uniongyrchol i gwmnïau.

FFIGUR 3 **Arian cyhoeddus ar gyfer cymorth AI ymarferol i fusnesau, y pen y flwyddyn (dangosol)**



Ffynhonnell: Felix Clarke, Cydweithfa AI Cymru, dadansoddiad o gyllidebau rhaglenni a gyhoeddwyd ac amcangyfrifon poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Tabl 5). Mae ffigur Cymru yn tybio bod y £1.1m a gyhoeddwyd ar gyfer rhaglen Busnes Cymru a'r cymorth i'r sector twristiaeth yn cael ei wario mewn un flwyddyn. Nid yw Gwlad y Basg, ar tua £5.36 y pen, wedi'i chynnwys yn y siart oherwydd mai cynllun grantiau mawr ar gyfer diwydiant yw ei chynllun hi.

37 Mae'r Alban yn ail flwyddyn ariannu rhaglen genedlaethol i helpu cwmnïau bach a chanolig i fabwysiadu AI, gyda £1m yn 2025-26 a £1.8m yn 2026-27, a gyflwynir gyda phartneriaid sy'n cynnwys yr asiantaethau menter gwledig.[79, 82] Dywed Llywodraeth yr Alban fod y flwyddyn gyntaf wedi helpu mwy na 1,000 o fusnesau, ac mae ei strategaeth AI yn adrodd bod mwy na 160 o gwmnïau wedi cael cymorth ymarferol, mentora neu gyllid archwilio, ac yn dweud bod gweithgarwch gwledig penodol wedi cyrraedd busnesau mewn ardaloedd anghysbell.[79, 83] Mae'r rhaglen yn para tan 31 Mawrth 2027, ac yn ne'r Alban mae'n cynnwys grantiau mabwysiadu AI o £1,000 i £5,000.[84, 85] Mae Cymru wedi ymrwymo tua'r un faint y pen, ond mae gan yr Alban gyllideb gyhoeddedig ar gyfer rhaglen sydd yn ei hail flwyddyn, ac nid oes gan arian Cymru linell gyllideb na chyfnod penodedig eto.[79]

38 Yn Iwerddon, gall cwmnïau sydd â rhwng un a 50 o weithwyr cyflogedig, gan gynnwys pobl hunangyflogedig sy'n cyflogi staff, gael gwasanaeth ymgynghori ac yna taleb gwerth 50% o'r costau hyd at €5,000, y gellir ei defnyddio i dalu am feddalwedd AI parod, ac mae gan y wlad darged cenedlaethol o 75% o ran y nifer sy'n manteisio ar AI, cyfrifiadura cwmwl a dadansoddeg data erbyn 2030.[86, 87] Ychydig a fanteisiodd ar y daleb ar y dechrau. Ym mis Mai 2025, adroddodd Digital Business Ireland fod ateb seneddol yn dangos mai dim ond 13 o geisiadau a chwe chymeradwyaeth a gafwyd ers lansio'r daleb ym mis Medi 2024.[88] Neilltuodd Cyllideb Iwerddon ar gyfer 2027, a gyhoeddwyd ar 6 Hydref 2026, €150m dros dair blynedd o'r Gronfa Hyfforddiant Genedlaethol (National Training Fund) i hyfforddi pobl mewn sgiliau AI.[89, 90] Yng Ngwlad y Basg, gall cwmnïau wneud cais tan 2 Tachwedd 2026 am grantiau o 60% o gost prosiectau AI hyd at €100,000, a chynigir hyfforddiant byw ar-lein mewn sgiliau digidol i ficrofusnesau a phobl hunangyflogedig.[80, 81, 91] Nid oes gan Gymru grant o'r fath eto.

39 Mae Cymru hefyd yn ennill llai na'i chyfran o gyllid y DU ar gyfer AI mewn busnes. Mae gan Gymru 3.4% o fusnesau'r sector preifat yn y DU, a 3.8% o'r busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW neu TWE,[68, 92] ond cafodd 2.0% o'r arian yng nghystadlaethau Innovate UK sy'n benodol ar gyfer AI a 2.4% o'r arian o raglen BridgeAI Innovate UK.[6, 43] Gallai helpu mwy o gwmnïau yng Nghymru i gyflwyno ceisiadau gynyddu'r gyfran honno. Ym mis Mehefin 2026, cyhoeddodd Llywodraeth y DU £100m i ehangu BridgeAI, yn rhan o £200m i helpu busnesau i fabwysiadu AI, felly mae'r gyfran y mae Cymru'n ei hennill yn

bwysicach.[93] Mae Llywodraeth y DU hefyd yn dechrau ariannu cyflenwi lleol yn Lloegr. Neilltuodd ei Chyllideb ar 28 Hydref 2026 arian i dreialu partneriaethau lleol ar gyfer mabwysiadu AI, gan ddechrau gyda thri awdurdod cyfunol yn Swydd Efrog a fydd yn gweithio ar draws cynghorau i helpu busnesau bach i dyfu. Mae testun y Gyllideb yn rhoi £30m ar gyfer y cynlluniau peilot, ond mae ei thabl costau yn rhoi £15m dros y cyfnod 2026-27 i 2029-30, ac nid yw'r Gyllideb yn nodi a fydd Cymru'n cael unrhyw gyllid cyfatebol.[54]

40 Hyd eleni, Canolfan Hwb Hartree Caerdydd oedd unig ffynhonnell cymorth technegol wedi'i ariannu'n llawn i gwmnïau bach a oedd yn mabwysiadu AI yng Nghymru, ac roedd wedi cynorthwyo 70 o gwmnïau bach a chanolig erbyn mis Medi 2025 gyda grantiau a oedd yn para tan haf 2026.[94, 95, 2] Mae'n dangos y gall prifysgolion Cymru gynnig y math hwn o gymorth, ond dim ond un rhan o Gymru a wasanaethwyd ganddi. Ar draws Cymru gyfan, cynigir digwyddiadau codi ymwybyddiaeth a chymhorthdal hyfforddiant, ond nid oes grant i roi AI ar waith na llwybr wedi'i gynllunio ar gyfer microfusnesau.

ADRAN 4

4 Mae rhaglenni cynharach Cymru yn cynnig gwersi am yr hyn sy'n gweithio



41 Mae Cymru wedi ceisio helpu cwmnïau bach i fabwysiadu technoleg newydd o'r blaen, ac mae ei hanes yn cynnwys llwyddiannau go iawn a rhybuddion clir fel ei gilydd. Mae Tabl 6 yn crynhoi'r prif raglenni.

TABL 6 **Cyrhaeddodd rhaglenni cynharach niferoedd mawr o gwmnïau bach, ond anaml y dangoswyd enillion parhaol i'r cwmnïau a gafodd eu helpu ganddynt.**

Rhaglen	Blynyddoedd	Arian	Beth ddigwyddodd
Rhwydwaith Technium	2001 i 2011	£93.4m i ddatblygu deg canolfan, tua 89% ohono'n arian cyhoeddus	Cynhyrchodd y canolfannau, a ariannwyd i raddau helaeth gan arian Amcan 1 Ewropeaidd, 86 o gwmnïau uwch-dechnoleg newydd, o'i gymharu â tharged o 250.
Cyflymu Cymru	2012 i 2018	£213.7m	Ni phennwyd unrhyw dargedau ar gyfer y nifer a fyddai'n manteisio arni, a chanfu'r archwilwyr fod y trefniadau ar gyfer sicrhau ei manteision ehangach yn wan.
Cyflymu Cymru i Fusnesau	2015 i 2023	Tua £13.1m wedi'i wario	Cefnogodd 6,537 o gwmnïau, 91% ohonynt yn ficrofusnesau, a rhagorodd ar bob targed allbwn, ond roedd twf trosiant real y cwmnïau a gefnogwyd 11.4% yn is na thwf cwmnïau tebyg ar ôl tair blynedd.
Fframwaith Busnes Twristiaeth Ddigidol (Digital Tourism Business Framework)	2010 i 2015	£562,000	Rhoddodd ddiagnosis i 738 o gwmnïau, ar gost o tua £762 yr un, a gwellodd 64% o'r rhai a holwyd eu haeddfedrwydd digidol.
Help i Dyfu: Digidol (Help to Grow: Digital, y DU)	2022 i 2023	Cyllideb o £296m	Dim ond 830 o dalebau a adbrynwyd, 20 ohonynt yng Nghymru, a daeth y cynllun i ben yn gynnar.
Made Smarter Adoption (Lloegr)	2022 i 2025	£19.9m wedi'i wario hyd at fis Rhagfyr 2024	Cynyddodd y mabwysiadu, ond ni chanfu'r dull mwyaf trylwyr unrhyw effaith sylweddol ar drosiant, cyflogaeth na chynhyrchiant.

Mae'r gost fesul cwmni wedi'i chyfrifo o'r ffynonellau a ddyfynnir. [96, 97, 98, 99, 100, 101, 102, 103, 104, 105]


Beth a weithiodd

42 Mae rhaglenni yng Nghymru wedi cyrraedd niferoedd mawr o gwmnïau bach. Cyrhaeddodd Opportunity Wales, a oedd yn weithredol rhwng 2001 a 2007, bron i 12,000 o gwmnïau bach drwy adolygiadau am ddim, grantiau cyfatebol bach a phartneriaid cyflawni lleol. [106, 107] Cefnogodd Cyflymu Cymru i Fusnesau 6,537 o gwmnïau, ac roedd 91% ohonynt yn ficrofusnesau. [100] Gall cyrff cyflawni yng Nghymru ddod o hyd i'r cwmnïau lleiaf a'u helpu.

Beth na weithiodd

43 Mae Cymru wedi talu am fynediad lawer mwy nag am ddefnydd. Rhwng 2002 a 2006, cynyddodd argaeledd band eang yng Nghymru o tua 30% i tua 99% o'r boblogaeth, ond dim ond 32% oedd yn manteisio arno.[108] Pan adeiladodd Cymru fand eang cyflym iawn yn ddiweddarach, gwariodd £213.7m o arian cyhoeddus ar y rhwydwaith o dan raglen Cyflymu Cymru.[98] Gwariwyd tua £13.1m, o gyllideb gymeradwy o £14.9m, ar raglen Cyflymu Cymru i Fusnesau, a helpodd gwmnïau i wneud defnydd ohono.[100, 101] Mae hynny tua 6c am bob £1. Yn 2015, beirniadodd Swyddfa Archwilio Cymru raglen Cyflymu Cymru am nad oedd unrhyw dargedau wedi'u pennu ar gyfer y nifer a fyddai'n manteisio arni.[99]

FFIGUR 4 **Gwariant cyhoeddus ar Cyflymu Cymru ac ar helpu busnesau i'w ddefnyddio**



Ffynhonnell: Archwilio Cymru (2023) a gwerthusiad Llywodraeth Cymru o Cyflymu Cymru i Fusnesau.

44 Nid yw cyrraedd targedau allbwn bob amser wedi golygu canlyniadau gwell. Rhagorodd rhaglen Cyflymu Cymru i Fusnesau ar bob targed allbwn, ac eto tyfodd trosiant real y cwmnïau a gefnogwyd ganddi 11.4% yn llai na throsiant cwmnïau cymharu cyfatebol dros dair blynedd.[100] Cynhyrchodd rhwydwaith Technium 86 o gwmnïau uwch-dechnoleg newydd, o'i gymharu â tharged o 250.[96, 97] O'r 830 o dalebau a adbrynwyd o dan Help i Dyfu: Digidol, cynllun talebau ar draws y DU, dim ond 20 a adbrynwyd yng Nghymru.[103] Yn aml, mae llwyddiant wedi'i farnu yn ôl gweithgarwch yn hytrach nag yn ôl canlyniadau.

45 Mae rhaglenni wedi dod i ben pan ddaeth eu cyllid i ben. Rhoddodd Opportunity Wales y gorau i helpu cwmnïau'n uniongyrchol yn 2007 wrth geisio arian newydd.[106] Daeth Cyflymu Cymru i Fusnesau i ben gyda'i chyllid Ewropeaidd ym mis Ebrill 2023, ac ni ellid dod o hyd i unrhyw raglen olynol a ariannwyd.[100] Mae'r rhwystrau a enwyd yn strategaeth technoleg gwybodaeth Cymru yn 2001, a oedd yn cynnwys diffyg ymwybyddiaeth, diffyg staff medrus a diffyg offer Cymraeg, yn debyg i'r rhai y mae cwmnïau yng Nghymru yn eu nodi ar gyfer AI heddiw.[109, 66]

Y gwersi

46 Mae'r hanes hwn yn cynnig pum gwers.

- Mae'r arian ar gyfer mynediad wedi bod yn llawer mwy na'r arian i helpu cwmnïau i ddefnyddio'r hyn y mae ganddynt fynediad ato.
- Ar gymorth a oedd yn mynd y tu hwnt i ymwybyddiaeth, fel diagnosis a chymorth ymarferol, y gwariodd rhaglenni cynharach leiaf.
- Partneriaid lleol sydd wedi cyrraedd y nifer fwyaf o gwmnïau.
- Roedd targedau allbwn yn cael eu cyrraedd yn amlach nag y dangoswyd canlyniadau i gwmnïau.
- Mae rhaglenni wedi tueddu i ddod i ben pan ddaeth eu cyllid i ben, yn union wrth iddynt ddechrau gweithio.



ADRAN 5

5 Nid yw risgiau AI wedi'u rhannu'n gyfartal ar draws Cymru

47 Mae AI yn dod â risgiau yn ogystal ag enillion. Maent yn effeithio ar swyddi, ar leoedd, ar y Gymraeg ac ar y cwmnïau lleiaf.

48 Mae'r model economaidd a luniwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn rhoi tua 565,000 o swyddi cyfwerth yng Nghymru, 38.7% o'r gyflogaeth, mewn tasgau sy'n agored i AI, ychydig yn is na 40% y DU. Nid yw bod yn agored i AI yr un peth â cholli swydd, ac mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn disgwyl i AI ategu'r rhan fwyaf o'r galwedigaethau sy'n agored iddo yn hytrach na chymryd eu lle.[110, 111] Ar y llwybr presennol, yr amcangyfrif canolog o'r swyddi a fydd wedi'u disodli erbyn 2035, cyn i bobl ddod o hyd i waith newydd, yw tua 45,000, gan godi i tua 57,000 os bydd mabwysiadu'n cyflymu.[110]

49 Mae disodli swyddi'n costio mwy yng Nghymru, lle'r oedd anweithgarwch economaidd ymhlith pobl 16 i 64 oed yn 24.0% o'i gymharu â 20.9% yn y DU rhwng mis Mehefin a mis Awst 2026.[112] Ym mis Mai 2025, gofynnodd y Senedd am ddadansoddiad o'r grwpiau sy'n wynebu'r risg fwyaf, a derbyniodd y llywodraeth y cais mewn egwyddor, ond nid oedd dadansoddiad o'r fath wedi'i gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref 2026.[15, 16] Ar 21 Hydref 2026, wrth ateb cwestiwn am AI a swyddi lefel mynediad i bobl ifanc, dywedodd y Gweinidog fod "y dystiolaeth yn dal i ddod i'r amlwg" a bod gwaith yn parhau i ddeall sut y mae AI yn "datblygu ar draws gwahanol sectorau ac ar draws daearyddiaeth wahanol".[24]

50 Y lleoedd lle mae'r cwmnïau ar eu lleiaf yn aml yw'r rhai sydd leiaf parod i elwa. Ceredigion, Powys, Ynys Môn, Gwynedd, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin sydd â'r ddarpariaeth band eang ffibr llawn isaf yng Nghymru, rhwng 58.7% a 73.0% o eiddo o'i gymharu ag 80.8% ar gyfer Cymru gyfan, ac mae gan bedair o'r siroedd hyn y cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg.[42, 113] Mae'r ffigur yn is fyth ar gyfer eiddo busnes, sef 57.6% ledled Cymru a 47.6% mewn ardaloedd gwledig.[113]

51 Yn 2021, roedd 17.8% o bobl tair oed a hŷn yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg, gan godi i 64.4% yng Ngwynedd a 55.8% ar Ynys Môn.[114] Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn bod llawer o fodelau iaith modern yn gallu ymdrin â'r Gymraeg yn dda, ond mae'n cynghori y dylid eu profi yn Gymraeg cyn eu defnyddio.[115] Roedd y Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg ar waith rhwng 2018 a 2024, ac ers hynny mae'r llywodraeth wedi pennu blaenoriaethau newydd yn hytrach na chynllun newydd.[116] Ym mis Medi 2026, cyhoeddodd bartneriaeth gyda'r cwmni AI Cosine i wella'r ffordd y mae model Cosine yn ymdrin â'r Gymraeg, a dywedodd wrth y Senedd ar 1 Hydref 2026 nad yw'r bartneriaeth yn cynnwys unrhyw gytundeb masnachol a bod y llywodraeth wedi cyfeirio'r cwmni at adnoddau Cymraeg sydd ar gael yn agored.[117, 118] Dyfarnwyd


grantiau technoleg Cymraeg ar gyfer 2026 i 2027 i Brifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Data Orchard a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ond nid yw eu symiau wedi'u cyhoeddi. [119] Ni chanfuwyd unrhyw astudiaeth o'r ffordd y mae busnesau bach Cymraeg eu hiaith yn defnyddio offer AI.

52 Dywedodd papur i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol fod anghydraddoldebau mewn manteisio ar AI "yn wir ac yn ehangu", yn enwedig yn ôl daearyddiaeth, yn ôl iaith ac ar gyfer grwpiau sy'n cynnwys cwmnïau bach ar incwm isel. [120] Sefydlodd y Cyngor is-grŵp ar AI a sgiliau'r gweithlu yn 2025, ac ym mis Chwefror 2026 roedd ei Grŵp Cyflawni Deallusrwydd Artiffisial yn ystyried sut i fesur effaith y cynllun peilot ar gyfer y cymhorthdal hyfforddiant. Nid oes unrhyw werthusiad o'r cynllun peilot wedi'i gyhoeddi. [121, 25] Nid oedd AI ar agenda cyfarfod y Cyngor ar 5 Hydref 2026. [122] Galwodd Cyngres TUC Cymru ym mis Medi 2026 am rannu'r enillion cynhyrchiant yn sgil AI â gweithwyr drwy oriau gwaith byrrach heb golli cyflog. [123]

53 Mae'r rhan fwyaf o'r disodli yn y model yn digwydd ar y llwybr presennol, pa gymorth bynnag a gynigir gan Gymru. Ar ardaloedd gwledig, ar siaradwyr Cymraeg ac ar y cwmnïau lleiaf y mae'r risgiau'n pwyso drymaf. Byddai'r dadansoddiad o'r grwpiau sy'n wynebu'r risg fwyaf, y gofynnodd y Senedd amdano, yn dangos yn gliriach ble mae angen cymorth fwyaf.

ADRAN 6

6 Os bydd Cymru'n dal i fyny â'r DU erbyn 2030, gallai ennill tua £1.1bn o allbwn ychwanegol dros ddeng mlynedd



54 Gall AI hefyd ychwanegu at allbwn Cymru. Ar ddechrau mis Hydref 2026, ni ellid dod o hyd i unrhyw amcangyfrif cyhoeddedig credadwy o effaith AI ar economi Cymru, ac mae'r unig ffigur ar gyfer Cymru sydd mewn cylchrediad, gan PwC yn 2017, yn dyddio o'r cyfnod cyn AI cynhyrchiol.[124] Nid yw papur briffio ymchwil diweddaredig y Senedd o fis Medi 2026 yn ailadrodd y ffigur hwnnw mwyach, a dim ond amcangyfrif ar gyfer y DU gyfan y mae'n ei roi.[125] Felly, lluniwyd model economaidd ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae'n cymhwyso dull y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, sy'n seiliedig ar y tasgau y gall AI eu cyflawni ym mhob diwydiant,[111] at allbwn Cymru fesul diwydiant, ac mae'n cymharu cyflymder mabwysiadu yng Nghymru â'r cyflymder yn y DU.[110]

55 Yr amcangyfrif canolog yw, os bydd cyfradd mabwysiadu AI yng Nghymru yn dal i fyny â chyfradd y DU erbyn 2030, y bydd Cymru'n ennill tua £1.1bn o allbwn ychwanegol dros y cyfnod 2026 i 2035, wedi'i fesur fel gwerth ychwanegol gros ym mhrisiau 2024. Mae'r enillion yn codi i tua £326m y flwyddyn erbyn 2035.[110] Gan nad yw ffigur o'r math hwn ond cystal â'r tybiaethau y mae'n seiliedig arnynt, mae'r adroddiad hwn yn nodi pob cam o'r cyfrifiad.

Sut y cyfrifir y ffigur

56 Mae chwe cham i'r cyfrifiad.

- **Cam 1.** Cynhyrchodd economi Cymru £87.4bn o allbwn, wedi'i fesur fel gwerth ychwanegol gros, yn 2024. Mae'r model yn tybio ei bod yn tyfu 1% y flwyddyn mewn termau real, yn unol â thybiaeth Llywodraeth Cymru ynghylch twf tueddiadol mewn cynhyrchiant, fel ei bod yn cyrraedd tua £97.5bn yn 2035.[110]
- **Cam 2.** Unwaith y bydd AI wedi'i fabwysiadu'n llawn, amcangyfrif canolog y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yw y bydd yn codi lefel cynhyrchiant y DU 2.3% dros ddegawd, ac mae'r model yn trin hynny fel yr un cynnydd mewn allbwn.[111] At ei gilydd, mae cymysgedd diwydiannau a swyddi Cymru ychydig yn llai agored i AI na chymysgedd y DU, felly tua 2.16% yw'r ffigur cyfatebol ar gyfer Cymru, sef 2.3% wedi'i luosi â 0.94.[110]
- **Cam 3.** Mae mabwysiadu'n cymryd amser. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn disgwyl i'r enillion gynyddu'n araf, gan ychwanegu tua 0.2 pwynt canran y flwyddyn at dwf cynhyrchiant erbyn diwedd cyfnod ei rhagolwg, tua 2030. Yn ôl dehongliad y model o'r llwybr hwnnw, mae'r DU yn gwireddu tua 20% o'r enillion erbyn 2030 a thua 94% erbyn 2035.[111, 110] Mae rhagolwg y Swyddfa ym mis Hydref 2026 yn cadw'r dybiaeth ganolog hon, ac mae'n nodi bod 30% o holl fusnesau'r DU, o bob maint, yn defnyddio o leiaf un dechnoleg AI ym mis Medi 2026, o'i gymharu â 15% ddwy flynedd ynghynt.[126]


- **Cam 4.** Ar hyn o bryd, mae Cymru'n mabwysiadu AI ar gyfradd sydd tua 84% o gyfradd y DU. Dyma'r pwynt canol rhwng dau fesur, sef 74% o Arolwg Arloesi'r DU a 94% o arolwg busnes y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ôl addasu ar gyfer maint cwmnïau. [65, 66, 110]
- **Cam 5.** Os bydd Cymru'n aros ar 84% o gyfradd y DU, bydd yn sicrhau 84% o'r enillion bob blwyddyn. Os bydd y bwlch yn cau mewn camau cyfartal bob blwyddyn o 2026 ymlaen, bydd Cymru'n cyrraedd cyfradd y DU yn 2030 ac yn sicrhau'r enillion llawn o hynny ymlaen.
- **Cam 6.** Y gwahaniaeth rhwng y ddau lwybr hyn ym mhob blwyddyn yw'r enillion posibl. Mae Tabl 7 yn eu dangos fesul blwyddyn.

TABL 7 **Mae'r allbwn ychwanegol y mae Cymru'n ei ennill drwy ddal i fyny â chyfradd mabwysiadu AI y DU erbyn 2030 yn codi i tua £326m y flwyddyn erbyn 2035.**

Blwyddyn	Allbwn ychwanegol o ddal i fyny (prisiau 2024)
2026	£0m
2027	£2m
2028	£11m
2029	£30m
2030	£64m
2031	£96m
2032	£138m
2033	£190m
2034	£253m
2035	£326m
Cyfanswm, 2026 i 2035	**£1.11bn**

Ffynhonnell: y model economaidd a ddisgrifir yn Atodiad A. [110]

FFIGUR 5 **Allbwn ychwanegol bob blwyddyn os bydd Cymru'n dal i fyny â chyfradd mabwysiadu AI y DU erbyn 2030 (amcangyfrif canolog, prisiau 2024), tua £1.1bn dros 2026 i 2035**



Ffynhonnell: Felix Clarke, Cydweithfa AI Cymru, model economaidd (Tabl 7), gan ddefnyddio amcangyfrif canolog y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a darlleniad y model o'i llwybr mabwysiadu.

57 Mae'r flwyddyn olaf yn dangos sut mae'r camau'n cyd-fynd â'i gilydd. Yn 2035, byddai'r enillion llawn yn sgil AI yng Nghymru yn dod i tua £2.1bn, sef 2.16% o £97.5bn. Ar lwybr y DU, byddai tua 94% o'r swm hwnnw, neu tua £2.0bn, wedi'i wireddu erbyn hynny. Pe bai Cymru'n aros ar 84% o gyfradd y DU, byddai'n colli tua chweched ran o hynny, oddeutu £0.3bn, sef y £326m yn y tabl o ddefnyddio'r ffigurau heb eu talgrynnu.

Pa mor eang yw'r ystod

58 Mae'r amcangyfrif yn ansicr. Maint y bwlch mabwysiadu yng Nghymru yw'r ansicrwydd cyntaf. Os yw'r gwir fwlch yn fwy nag yn y senario canolog, mae'r enillion posibl yn fwy, ac os yw'n llai, mae'r enillion yn llai. Ar sail y dybiaeth ganolog am gynhyrchiant, pe bai'r bwlch yn parhau drwy gydol y degawd, byddai'n costio rhwng £440m a £1.84bn o allbwn i Gymru dros y cyfnod 2026 i 2035. [110]

59 Maint effaith AI ar gynhyrchiant yw'r ail ansicrwydd, a'r mwyaf o'r ddau. Os yw'r effaith honno'n is neu'n uwch nag yn senario canolog y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, mae'r ffigur yn newid yn gymesur, ac ar draws yr holl senarios a fodelwyd mae cost bwlch parhaol rhwng tua £130m a £3.29bn dros y degawd. [110]

60 Nid yw'r model yn honni y byddai unrhyw raglen benodol yn cau'r bwlch, ac mae'n hepgor buddsoddiad mewn canolfannau data. Mae hefyd yn cynhyrchu ffigur mwy nad yw'r adroddiad hwn yn dibynnu arno. Pe bai cymorth yn dwyn mabwysiadu yng Nghymru ymlaen flwyddyn, yn ogystal â chau'r bwlch, byddai'r model yn ychwanegu £2.0bn arall, ond nid oes unrhyw werthusiad yng Nghymru yn dangos i ba raddau y mae cymorth yn cyflymu mabwysiadu. [110]

Pwy fyddai'n elwa

61 Byddai cwmnïau bach yn cael cyfran sylweddol o'r enillion. Yn y senario canolog ar gyfer 2035, byddai cwmnïau bach a chanolig, gan gynnwys microfusnesau, yn cael tua 37% o'r holl enillion yn sgil AI, a microfusnesau ar eu pen eu hunain tua 15.5%. [110] Nid yw'r enillion yn dod i ben yn 2035, ac mae allbwn y byddai Cymru wedi'i golli fel arall yn parhau i gael ei ennill yn y blynyddoedd dilynol.

62 I roi syniad o'r raddfa yn unig, mae tair blynedd o wariant ar gyfradd Gogledd Iwerddon, tua £13.5m, yn cyfateb i tua 1.2% o'r enillion canolog o £1.1bn. Nid yw hyn yn adenillion ar wariant cyhoeddus, gan nad yw allbwn ychwanegol yr un peth â refeniw treth ychwanegol, ac nid yw'r model yn cysylltu gwariant â mabwysiadu. [110]

ADRAN 7

7 Materion i'w hystyried a'r camau nesaf



Y materion a godir gan y dystiolaeth

63 Mae'r dystiolaeth yn yr adroddiad hwn yn codi nifer bach o gwestiynau ymarferol i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid. Fe'u nodir yma er mwyn llywio'r drafodaeth. Mae'r atebion yn dibynnu ar ddewisiadau sy'n perthyn i Weinidogion, i'r Senedd ac i'r sefydliadau a fyddai'n darparu'r cymorth.

64 Cyllid yw'r cyntaf. Nid oes gan y Cynllun AI ei gyllideb ei hun. Y cyfle nesaf i roi cyllideb iddo yw cyllideb ddrafft 2027-28, sydd i'w chyhoeddi ar 17 Tachwedd 2026 gyda'i manylion llawn fesul llinell, ac wedyn y cyllidebau atodol a'r cyllidebau sy'n dilyn.[10, 11] Ychwanegodd Cyllideb y DU ar 28 Hydref 2026 tua £450m at gyllid Cymru dros gyfnod yr adolygiad o wariant, ond mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd cyllid o ddydd i ddydd yn dal i fod 0.5% yn is mewn termau real y flwyddyn nesaf, felly byddai'n rhaid dod o hyd i unrhyw linell gyllideb newydd o gronfeydd cyfyngedig.[12, 54] Mae'r hanes yn Adran 4 yn awgrymu bod hyd unrhyw ymrwymiad yr un mor bwysig â'i faint, gan fod cymorth wedi tueddu i ddod i ben pan ddaeth yr arian i ben.

65 Pwyslais yw'r ail. Mae busnesau bach yn 99.3% o'r busnesau yng Nghymru, mae tua **2c** ym mhob £1 o arian cyhoeddus a ddyfarnwyd ar gyfer gwaith AI wedi mynd at helpu busnesau i fabwysiadu AI, ac yn y senario canolog byddai cwmnïau bach a chanolig yn cael tua 37% o'r enillion yn sgil AI.[41, 7, 110]

Darparu cymorth yng Nghymru

66 Mae llawer o'r hyn sy'n gwneud economi Cymru yn unigryw yn effeithio ar y ffordd y caiff cymorth ei ddarparu. Mae ganddi lawer o ficrofusnesau, ardaloedd gwledig â chysylltedd gwannach, a sectorau twristiaeth a ffermio mawr, ac mae'r rhan fwyaf o bobl yng Ngwynedd ac ar Ynys Môn yn siarad Cymraeg.[114]

67 Mae hanes rhaglenni cynharach yn berthnasol yma. Cyrhaeddodd Opportunity Wales bron i 12,000 o gwmnïau bach drwy bartneriaid cyflawni lleol.[106, 107] Cyrhaeddodd Help i Dyfu: Digidol, cynllun cenedlaethol, 20 o gwmnïau yng Nghymru, ac roedd ei werthuswyr yn argymell sianeli lleol a chyngor un i un.[103] Pan gyrhaeddodd Cyflymu Cymru i Fusnesau fel gwasanaeth cenedlaethol am ddim, dywedodd cwmni TG lleol wrth y Senedd yn 2019 ei fod "wedi'i gau allan yn llwyr" o'r cyngor e-fusnes yr oedd yn arfer ei ddarparu, ac nad oedd y rhaglen wedi cyfeirio cwmnïau ato.[127] Mae'n ymddangos bod y ffordd y mae rhaglen yn gweithio gyda darparwyr lleol presennol yn effeithio ar ba mor bell y mae'n cyrraedd.

68 Mae gan Gymru eisoes gapasiti perthnasol. Mae M-SParc, parc gwyddoniaeth yng Nghymru, yn cyflwyno rhaglen Busnes Cymru, mae hwb ym Mhrifysgol Caerdydd wedi rhoi cymorth technegol i gwmnïau bach ar ddefnyddio AI, ac mae Prifysgol Bangor ac M-SParc wedi cynnal arolwg o gwmnïau bach yng Nghymru ynghylch eu defnydd o AI cynhyrchiol. [4, 95, 128] Mae'r prosiect arolwg wedi'i gofnodi fel un sydd wedi'i gwblhau, ac nid oedd unrhyw ganlyniadau wedi'u cyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref 2026. [129] Roedd Cyllideb y DU ar 28 Hydref 2026 yn cynnwys £2.5m, yn amodol ar achos busnes, i ehangu gofod M-SParc a'i gymorth i fusnesau bach a busnesau newydd, er nad arian ar gyfer mabwysiadu AI yw hwn. [54] Mae gwasanaeth Helo Blod Busnes Cymru yn rhestru technoleg Cymraeg ar gyfer y gweithle, gan gynnwys cynorthwywyr AI fel Copilot, ChatGPT, Claude a Gemini sy'n dechrau ymdrin â'r Gymraeg. [119, 130] Cafodd Banc Datblygu Cymru gylch gwaith newydd ar gyfer 2026 i 2030 ar 30 Medi 2026, sy'n gofyn iddo helpu cwmnïau i fuddsoddi mewn "offer digidol, mabwysiadu technoleg", ond nid yw'n sôn am AI. [131] Mae Sbardun, rhaglen 24 mis o gymorth dwys i fusnesau sydd â photensial cryf i dyfu, a gyhoeddwyd ar 2 Hydref 2026, yn dechrau gydag ugain o gwsmeriaid presennol y Banc Datblygu, ac nid yw'n sôn am AI chwaith. [132] Nid yw'r ymdrechion hyn wedi'u dwyn ynghyd eto mewn un cynnig sy'n cyrraedd pob rhan o Gymru.

69 Mae'r ddarpariaeth yn anwastad. Nid oedd yr un o'r digwyddiadau AI wyneb yn wyneb yn rhestrau Busnes Cymru ym mis Hydref 2026 ym Mhowys, yng ngogledd-ddwyrain Cymru nac yn y Cymoedd. Ar 29 Hydref, roedd y naw sesiwn wyneb yn wyneb a restrwyd ar gyfer mis Tachwedd a mis Rhagfyr yng Nghaerdydd (pedair), yn Aberystwyth, yng Nghasnewydd, yn Noc Penfro, yng Ngwynedd ac yn Sir Fynwy, ac roedd y cyflymydd yn Aberystwyth eisoes wedi cau i archebion. [18] Mae gweithdai AI ar wahân ar gyfer busnesau twristiaeth, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a gynhelir gan MWT Cymru, wedi'u cynnal neu wedi'u trefnu yn yr ardaloedd hyn ym mis Hydref a mis Tachwedd 2026, yng Nglynebwy, yn y Gelli Gandryll, yn Rhaeadr Gwy, ym Machynlleth ac yn Llangollen. [20] Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cynghori y dylid profi offer AI yn Gymraeg cyn eu defnyddio. [115] Mae'r Comisiynydd hefyd yn datblygu fframwaith gyda Busnes Cymru i annog y busnesau bach y mae'n eu cefnogi i ymrwymo i ddarpariaeth Gymraeg. [133]

Enghraifft o'r hyn y gallai rhaglen ei gostio

70 I roi syniad o'r raddfa, mae'r rhan hon yn amcangyfrif beth y gallai rhaglen ei gostio. Enghreifftiau yw'r ffigurau, nid cynigion. Ar gyfradd Gogledd Iwerddon, sef tua £1.43 y pen y flwyddyn, mae poblogaeth Cymru o 3,175,181 yn awgrymu tua £4.54m y flwyddyn. [75, 78] Ar gyfradd yr Alban ar gyfer 2026-27, byddai'r ffigur tua £1.03m y flwyddyn, [79] ac ar gyfradd Gwlad y Basg tua £17m, er mai cynllun grantiau mawr ar gyfer diwydiant yw cynllun Gwlad y Basg. [80]

71 Lluniwyd amcangyfrif o'r gost hefyd ar sail y gost gyfartalog fesul cwmni mewn rhaglenni cynharach. Mae Tabl 8 yn dangos beth y byddai tua £4.5m y flwyddyn yn talu amdano ar y costau cyfartalog hynny, pe bai'r cymorth yn dilyn y llwybr a ddisgrifiwyd gan yr Adolygiad o gymorth i fusnesau, gyda thaleb ar wahân i

ficrofusnesau ac unig fasnachwyr. Dros dair blynedd, byddai hyn yn dod i tua 3,000 o ddiagnosisau, cymorth technegol i 210 o gwmnïau, 120 o grantiau a 600 o dalebau.

TABL 8 **Fel enghraifft, gallai tua £4.5m y flwyddyn dalu am lwybr cymorth i tua 1,300 o gwmnïau y flwyddyn.**

Elfen	Beth y mae'n ei ddarparu	Cwmnïau a gaiff eu helpu bob blwyddyn	Cost gyfartalog fesul cwmni	Cost bob blwyddyn
Digwyddiadau codi ymwybyddiaeth a chyflymyddion	Digwyddiadau, gweminarau a chyflymyddion byr am ddim sy'n cyflwyno perchnogion i ddefnyddiau ymarferol o AI, fel y mae Busnes Cymru yn eu cynnal drwy M-SParc ar hyn o bryd.	Yn agored i bawb	Amherthnasol	£600,000
Diagnosis arbenigol	Adolygiad un i un o'r busnes gyda chynghorydd AI, sy'n nodi lle y gallai AI arbed amser, torri costau neu ennill cwsmeriaid, ac sy'n gorffen gyda chynllun gweithredu ysgrifenedig byr.	1,000	£1,400	£1,400,000
Cymorth technegol wedi'i ariannu	Amser gan arbenigwr AI i sefydlu, addasu a phrofi offeryn AI a ddewiswyd yn y busnes, fel bod y cwmni'n ei weld yn gweithio ar ei dasgau ei hun cyn iddo ymrwymo arian.	70	£12,000	£840,000
Grant cyfatebol i roi AI ar waith	Grant o hyd at £20,000 tuag at feddalwedd, integreiddio a hyfforddiant staff er mwyn dod ag AI i ddefnydd bob dydd, gyda'r cwmni'n talu o leiaf hanner.	40	£20,000	£800,000
Taleb gyfatebol i ficrofusnesau ac unig fasnachwyr	Taleb fach sy'n talu hanner cost tanysgrifiadau, meddalwedd a hyfforddiant AI, hyd at tua £4,250, wedi'i chynllunio ar gyfer cwmnïau heb lawer o staff neu heb staff o gwbl.	200	£4,250	£850,000
Cyfanswm		**1,310**		**£4,490,000**

Daw'r costau cyfartalog fesul cwmni o raglenni cynharach, ac maent wedi'u talgrynnu. Mae cost diagnosis yn seiliedig ar y pwynt canol rhwng y Fframwaith Busnes Twristiaeth Ddigidol (£762) a Chyflymu Cymru i Fusnesau (£2,004), ac mae cost cymorth technegol yn seiliedig ar y pwynt canol rhwng blwyddyn gyntaf rhaglen yr Alban (£6,250) a Chanolfan Hwb Hartree Caerdydd (£17,426). [102, 100, 79, 83, 94, 95] Mae'r grantiau wedi'u costio ar uchafswm Made Smarter, sef £20,000, a'r talebau ar uchafswm Iwerddon o €5,000 ar 50%, sef tua £4,250. [105, 86] Gan fod y grantiau wedi'u costio ar eu huchafswm, byddai'r gwariant gwirioneddol fesul cwmni fel arfer yn is. Mae nifer y cwmnïau wedi'i bennu yng ngoleuni'r cyrhaeddiad yn y gorffennol. Cefnogodd Cyflymu Cymru i Fusnesau tua 800 o gwmnïau bob blwyddyn, ac ymgysylltodd hwb Hartree â 115 o gwmnïau yn 2024. [100, 95] Mae'r enghraifft yn tybio y telir am y gwerthuso o fewn y cyfanswm.

72 I roi syniad o'r raddfa, mae £4.5m y flwyddyn yn cyfateb i tua 20% o gyllideb graidd Busnes Cymru, sef £22.5m ar gyfer 2026-27, a thua £18 y busnes y flwyddyn. [2] Mae hyn yn cymharu â thua £2.85 y busnes a ddyfarnwyd i gyd ar gyfer mabwysiadu AI dros y pedair blynedd a hanner diwethaf. [7, 43]

Cwestiynau dylunio

73 Y tu hwnt i'r swm, y prif gwestiynau dylunio yw a ddylai'r cymorth ddilyn y llwybr a argymhellwyd gan yr Adolygiad o gymorth i fusnesau, o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth i ddiagnosis arbenigol byr, ac yna i gymorth technegol ac i grant cyfatebol,[14] ac a ddylai fod gan ficrofusnesau ac unig fasnachwyr eu llwybr eu hunain, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yng Ngwlad y Basg, mae hyfforddiant byw ar-lein mewn sgiliau digidol yn agored i bobl hunangyflogedig, ac yn lwerddon mae talebau ar gael i bobl hunangyflogedig sy'n cyflogi staff.[91, 86]

74 Ni fyddai angen arian newydd ar gyfer dau gwestiwn arall. Y cyntaf yw a ddylai cynghorau ganiatáu meddalwedd, tanysgrifiadau a hyfforddiant yn eu grantiau busnes pan fyddant at ddiben mabwysiadu AI.[59, 60] Yr ail yw a ddylid darparu arian yr Ardaloedd Twf AI ar gyfer mabwysiadu lleol drwy'r cymorth presennol yng Nghymru, fel bod cwmnïau'n dod ar draws un cynnig yn hytrach na dau.[53] Nid yw galwadau rhanbarthol y Gronfa Twf Lleol wedi'u cynllunio ar gyfer hyn chwaith. Mae galwad De-orllewin Cymru, sy'n cau ar 15 Tachwedd 2026, yn bennaf ar gyfer prosiectau cyfalaf sydd fel arfer yn werth mwy na £500,000, gyda chyllid refeniw cyfyngedig, ac nid yw'n sôn am AI na mabwysiadu digidol.[134]

Mesur canlyniadau

75 Barnwyd rhaglenni cynharach yn bennaf ar sail gweithgarwch. Ymhlith y mesurau a fyddai'n dangos canlyniadau mae gwariant a'r nifer sy'n manteisio yn ôl maint cwmni a rhanbarth, cyfran y cwmnïau sy'n symud o ymwybyddiaeth i roi AI ar waith, a chymariaethau â chwmnïau tebyg na chawsant gymorth.

76 Dim ond samplau bach sy'n mesur y cwmnïau lleiaf. Byddai amcangyfrifon wedi'u pwysoli ar gyfer Cymru o'r defnydd o AI, o arolwg busnes y Swyddfa Ystadegau Gwladol, fel sydd gan yr Alban eisoes, yn helpu i lenwi'r bwlch hwnnw. Ffigur diweddaraf yr Alban, wedi'i bwysoli, yw 36.9% o'r busnesau sydd â deg neu fwy o weithwyr, ar gyfer mis Medi 2026, ac nid oes gan Gymru ffigur o'r fath.[135] Mae'r Arolwg Arhydol Busnesau Bach bellach yn holi am AI, ond dim ond i un rhan o'i sampl, gyda thua 150 o gyflogwyr yng Nghymru yn ateb y cwestiwn am AI, felly byddai sampl mwy ar gyfer Cymru a chwestiwn am AI a ofynnir i'r sampl cyfan yn gwneud ei ffigurau ar gyfer Cymru yn fwy dibynadwy.[71] Mae'n bosibl hefyd y gellir cael ffigurau cynharach ar gyfer Cymru o ymatebion 2022 i'r arolwg hwnnw.[136]

Camau nesaf yr ymchwil hon

77 Mae'r adroddiad cychwynnol hwn yn seiliedig ar ffynonellau cyhoeddedig yn unig. Dylai cam nesaf y gwaith glywed yn uniongyrchol gan fusnesau bach yng Nghymru am y ffordd y maent yn defnyddio AI a pha gymorth sydd ei angen arnynt, drwy arolwg a chyfweliadau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dylai hefyd geisio ffigurau heb eu cyhoeddi ar wariant a'r nifer sy'n manteisio drwy geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, profi offer AI cyffredin yn Gymraeg, a diweddaru'r amcangyfrif yn Adran 6 wrth i fesurau gwell o fabwysiadu yng Nghymru ddod ar gael.

Casgliad




78 Mae Cymru wedi dechrau gweithredu. Mae ganddi gynllun AI â nod clir ar gyfer busnesau, Swyddfa AI, digwyddiadau AI am ddim a gyflwynir ledled Cymru gan barc gwyddoniaeth yng Nghymru, a chymhorthdal hyfforddiant. Mae'r llywodraeth newydd wedi addo dull cenedlaethol mwy cydgysylltiedig.

79 Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bylchau. Nid oes gan y cynllun ei gyllideb ei hun, nid adroddwyd eto bod unrhyw ran o'r pecyn £2.1m wedi'i gwario, ac mae tua **2c** o bob £1 o arian cyhoeddus a ddyfarnwyd ar gyfer gwaith AI yng Nghymru wedi mynd at helpu busnesau i'w fabwysiadu, er bod busnesau bach a chanolig yn 99.3% o fusnesau Cymru. Mae cwmnïau mwy yng Nghymru eisoes yn defnyddio AI yn llai na chwmnïau yn unrhyw un o wledydd eraill y DU, dim ond samplau bach sy'n mesur y rhai lleiaf, ac mae Gogledd Iwerddon yn gwario oddeutu pedair gwaith cymaint y pen ag y mae Cymru wedi'i ymrwymo.

80 Mae rhaglenni cynharach Cymru yn dangos sut y mae cymorth wedi cyrraedd niferoedd mawr o gwmnïau bach, a pham y mae weithiau wedi dod i ben cyn iddo ddangos canlyniadau parhaol. Ar ardaloedd gwledig, ar siaradwyr Cymraeg ac ar y cwmnïau lleiaf y mae risgiau AI yn pwyso drymaf. Yr amcangyfrif canolog yn yr adroddiad hwn yw y gallai dal i fyny â chyfradd mabwysiadu'r DU erbyn 2030 ychwanegu tua £1.1bn o allbwn dros ddeng mlynedd, gyda'r enillion yn parhau ar ôl hynny.

81 Man cychwyn yw'r canfyddiadau hyn. Fe'u cynigir er mwyn llywio'r penderfyniadau sydd i ddod, gan gynnwys cyllideb ddrafft 2027-28, ac er mwyn eu profi a'u datblygu yng ngham nesaf y gwaith hwn.

Cyfeiriadau



1 Llywodraeth Cymru, 'AI Cymru: Shaping a Smarter, Fairer, More Prosperous Wales' / 'AI Cymru: Creu Cymru fwy Clyfar, Teg a Ffyniannus' (y Cynllun AI i Gymru), 18 Tachwedd 2025, https://www.llyw.cymru/y-cynllun-ai-i-gymru-html

2 Llywodraeth Cymru, 'Economy, Trade and Rural Affairs Committee Evidence Paper on Draft Budget 2026-27: Economy, Energy and Planning Main Expenditure Group' / 'Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27: Prif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio', 26 Tachwedd 2025, https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2025-11/pwyllgor-yr-economi-masnach-a-materion-gwledig-ysgrifennydd-y-cabinet-dros-yr-economi-ynni-a-chynllunio-tachwedd-2025_0.pdf

3 Llywodraeth y DU, 'AI Growth Zones to create thousands of jobs and unlock up to £100 billion in investment, as new site confirmed for North Wales' / 'Parthau Twf Deallusrwydd Artiffisial i greu miloedd o swyddi a datgloi gwerth hyd at £100 biliwn mewn buddsoddiad wrth i safle newydd gael ei gadarnhau yng Ngogledd Cymru', 13 Tachwedd 2025, https://www.gov.uk/government/news/ai-growth-zones-to-create-thousands-of-jobs-and-unlock-up-to-100-billion-in-investment-as-new-site-confirmed-for-north-wales.cy

4 M-SParc (Menai Science Park Ltd), 'AI Adoption Business Advisor' (disgrifiad swydd, dogfen Word), Chwefror 2026, https://m-sparc.com/ai-adoption-business-advisor/

5 Llywodraeth Cymru, '£2.1 million support to help Welsh businesses adopt AI' / 'Cymorth gwerth £2.1 miliwn i helpu busnesau Cymru i fabwysiadu AI', datganiad i'r wasg, 12 Ionawr 2026, https://www.llyw.cymru/cymorth-gwerth-21-miliwn-i-helpu-busnesau-cymru-i-fabwysiadu-ai

6 UKRI, 'Innovate UK funded projects since 2004' (llyfrau gwaith prosiectau, data hyd at fis Medi 2026), gyda dadansoddiad ar gyfer yr adroddiad hwn, https://www.ukri.org/publications/innovate-uk-funded-projects-since-2004/

7 Felix Clarke, Cydweithfa AI Cymru, dadansoddiad o grantiau, contractau a thaliadau a gyhoeddwyd, 'Public money for AI in Wales, April 2022 to early October 2026', gyda ffynhonnell ar gyfer pob cofnod, Hydref 2026, wedi'i ymestyn hyd at ganol mis Hydref 2026 ar 29 Hydref 2026 gyda'r dyfarniadau yng nghyfeiriadau 43 a 44. Y dull yn Atodiad A.

8 Senedd Cymru, 'Record of proceedings, Plenary, 12 May 2026' / 'Cofnod y Trafodion, y Cyfarfod Llawn, 12 Mai 2026' (enwebu Prif Weinidog Cymru), https://cofnod.senedd.cymru/Plenary/16033

9 Llywodraeth Cymru, 'Evidence paper' / 'Papur tystiolaeth' i Bwyllgor yr Economi, Ynni a Chysylltedd, 30 Medi 2026, https://busnes.senedd.cymru/documents/s176327/Papur%20tystiolaeth%20-%20Llywodraeth%20Cymru.pdf

10 Pwyllgor Cyllid y Senedd, 'Record of proceedings, 1 October 2026' / 'Cofnod y Trafodion, 1 Hydref 2026' (cofnod drafft), cyfraniad C774615 gan Elin Jones AS, Gweinidog Cabinet dros Gyllid, a siaradwyd yn Gymraeg, gan ddefnyddio'r Gymraeg wreiddiol fel y'i cofnodwyd, https://cofnod.senedd.cymru/Committee/16294#C774615

11 Llywodraeth Cymru (Elin Jones AS, Gweinidog Cabinet dros Gyllid), llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 'Budget timetable' / 'Amserlen y gyllideb', 3 Gorffennaf 2026 (FIN(7)-02-26 PTN 3), https://busnes.senedd.cymru/documents/s174345/PTN%203%20-%20Llythyr%20gan%20y%20Gweinidog%20Cabinet%20dros%20Gyllid%20Amserlen%20y%20gyllideb%20-%203%20Gorffennaf%202026.pdf

12 Llywodraeth Cymru, 'Written Statement: Welsh Government response to the UK Autumn Budget 2026' / 'Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb Llywodraeth Cymru i Gyllideb Hydref y DU 2026' (Elin Jones AS), 28 Hydref 2026, https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ymateb-llywodraeth-cymru-i-gyllideb-hydref-y-du-2026

13 Pwyllgor yr Economi, Ynni a Chysylltedd y Senedd, llythyr gan y Cadeirydd (Elwyn Vaughan AS) at y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, 'Request for information to inform scrutiny of Draft Budget 2027-28', 12 Awst 2026, https://busnes.senedd.cymru/documents/s175008/Llythyr%20gan%20y%20Cadeirydd%20at%20y%20Gweinidog%20Cabinet%20dros%20Fenter%20Cysylltedd%20ac%20Ynni%20-%2012%20Awst%202026.pdf

14 Llywodraeth Cymru, 'Business support review' / 'Adolygiad o gymorth i fusnesau', 18 Tachwedd 2025, https://www.llyw.cymru/adolygiad-o-gymorth-i-fusnesau-html, a 'Written Statement: Conclusion of Short-Term Reviews' / 'Datganiad Ysgrifenedig: Casgliad Adolygiadau Tymor Byr' (Rebecca Evans AS), 8 Hydref 2025, https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-casgliad-adolygiadau-tymor-byr

15 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd, 'AI and the Welsh Economy: Can Welsh androids dream of electric sheep?' / 'Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru: A all androidau Cymru freuddwydio am ddefaid trydan?', 20 Mai 2025, https://laiddocuments.senedd.wales/cr-ld17182-cy.pdf

16 Llywodraeth Cymru, 'Response to the Economy, Trade and Rural Affairs Committee Report: AI and the Welsh Economy' / 'Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru', Mehefin 2025, a anfonwyd gyda llythyr gan Rebecca Evans AS dyddiedig 3 Gorffennaf 2025, https://busnes.senedd.cymru/documents/s163878/Deallusrwydd%20Artiffisial%20ac%20Economi%20Cymru.pdf

17 Pwyllgor yr Economi, Ynni a Chysylltedd y Senedd, 'A New Economic Development Agency' / 'Asiantaeth Datblygu Economaidd Newydd' (tudalen yr ymchwiliad, cyhoeddwyd gyntaf 24 Medi 2026), https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=48287, a thudalen y pwyllgor sy'n rhestru ei waith presennol, darllenwyd 29 Hydref 2026, https://busnes.senedd.cymru/mgCommitteeDetails.aspx?ID=982

18 Busnes Cymru, 'Events Finder: artificial intelligence topic' / 'Digwyddiadur Busnes Cymru: pwnc Deallusrwydd Artiffisial (AI)', darllenwyd 5 a 29 Hydref 2026, https://wales.business-events.org.uk/cy/eventsearch/?location=&locationDistance=10&dsSector=&dsTopic=156&dsType=&text=

19 MWT Cymru, 'Practical AI workshops for tourism businesses across Wales in demand', 10 Chwefror 2026, https://www.mwtcymru.co.uk/press-releases/practical-ai-workshops-for-tourism-businesses-across-wales-in-demand

20 Business News Wales, 'New Dates Added as Practical AI Workshops Prove Popular With Welsh Tourism Businesses', 8 Hydref 2026, https://businessnewswales.com/new-dates-added-as-practical-ai-workshops-prove-popular-with-welsh-tourism-businesses/, a'i adroddiad ar weithdai AI am ddim i fusnesau twristiaeth a lletygarwch, 26 Awst 2026, https://businessnewswales.com/free-ai-workshops-announced-for-tourism-and-hospitality-businesses-across-wales/, gyda Chroeso Cymru, 'AI made practical: a free hands-on workshop' / 'AI Ymarferol: Gweithdy ymarferol am ddim' (tudalen y diwydiant), darllenwyd ym mis Hydref 2026, https://diwydiant.croeso.cymru/cy/cymryd-rhan/digwyddiadau-ymgysylltu-ar-diwydiant-twristiaeth-lletygarwch/ai-ymarferol-gweithdy-ymarferol-am-ddim

21 Busnes Cymru, 'Flexible Skills Programme' / 'Y Rhaglen Sgiliau Hyblyg', darllenwyd 5 a 29 Hydref 2026, https://busnescymru.llyw.cymru/pynciau-a-chyfarwyddyd/cyflogi-pobl-a-gwella-sgiliau/recriwtio-a-hyfforddi/y-rhaglen-sgiliau-hyblyg

22 Senedd Cymru, 'Written question WQ100162' / 'Cwestiwn ysgrifenedig WQ100162' (cynllun peilot AI y Rhaglen Sgiliau Hyblyg), atebwyd 27 Awst 2026, https://cofnod.senedd.cymru/WrittenQuestion/100162

23 Busnes Cymru, 'Artificial intelligence' / 'Deallusrwydd Artiffisial', darllenwyd 29 Hydref 2026, y dudalen Saesneg a ddyfynnir ym mharagraff 16, https://businesswales.gov.wales/topics-and-guidance/technology-within-business/artificial-intelligence, a'r dudalen Gymraeg, https://busnescymru.llyw.cymru/pynciau-a-chyfarwyddyd/technoleg-o-fewn-busnes/deallusrwydd-artiffisial

24 Senedd Cymru, 'Record of proceedings, Plenary, 21 October 2026' / 'Cofnod y Trafodion, y Cyfarfod Llawn, 21 Hydref 2026', cyfraniadau C780459 (OQ64780) a C780507 (OQ64785) gan Adam Price AS, a ddyfynnir o gyfieithiad swyddogol y Cofnod o'r Saesneg, https://cofnod.senedd.cymru/Plenary/16318

25 Llywodraeth Cymru, 'Social Partnership Council meeting, 25 February 2026: minutes' / 'Cyfarfod Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, 25 Chwefror 2026: cofnodion', cyhoeddwyd 26 Mawrth 2026, https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-gymdeithasol-25-chwefror-2026-cofnodion-html

